Gwybodfan
Celf
y DU

# Ymweld â'r DU
## Canllaw fisa i artistiaid rhyngwladol a gweithwyr creadigol proffesiynol

Ni ddylid ystyried y canllaw hwn yn gyngor cyfreithiol. Os bydd angen cyngor cyfreithiol arnoch chi, dylech gysylltu â chyfreithiwr cymwys.
Mae ein hymwadiad cyfreithiol llawn ar gael i'w ddarllen ar ein gwefan fan hyn.

# Croeso i Ganllaw Fisa Gwybodfan Celf y DU

[Fersiwn wedi'i diweddaru: mis Ionawr 2025]

Cafodd y canllaw fisa hwn ei greu i helpu sefydliadau ac unigolion ddeall yr opsiynau fisa gwahanol sydd ar gael wrth drefnu ymweliad â'r Deyrnas Unedig (y DU) at ddibenion gwaith. Bwriad y canllaw yw helpu sefydliadau, cyrff y sector creadigol, ac artistiaid a phobl greadigol broffesiynol yn y DU ac yn rhyngwladol pan fyddan nhw'n trefnu ymweliad â'r DU at ddibenion gwaith creadigol.

Gall yr holl wybodaeth am fisâu lethu rhywun, ac mae llawer o opsiynau ar gael, yn ddibynnol ar wahanol ffactorau. Yn eu plith, mae'r canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny:

- eich cenedligrwydd
- y wlad rydych chi'n teithio ohoni
- sut fath o waith rydych chi'n bwriadu ei wneud yn y DU
- faint o amser rydych chi'n bwriadu'i dreulio yn y DU
- a fyddwch chi'n cael eich talu am y gwaith hwnnw

Oherwydd y cymhlethdod hwn, cafodd y canllaw ei ddrafftio gan arbenigwyr cyfreithiol, gan ddefnyddio gwybodaeth swyddogol gan Lywodraeth y DU. Y nod oedd sicrhau bod y canllaw yn gywir ar adeg ei argraffu. Mae rhywfaint o'r iaith a ddefnyddir yn y canllaw hwn yn debyg i'r derminoleg y byddwch yn dod ar ei thraws wrth ddefnyddio'r system fisa, ac mae'n deillio o wybodaeth swyddogol, fel y wybodaeth sydd ar wefannau'r Swyddfa Gartref a Llywodraeth y DU. Ar y cyfan, nid yw'r wybodaeth ar wefan Llywodraeth y DU ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg. Oherwydd hynny, mae rhestr o ddiffiniadau ar ddiwedd y canllaw hwn, sy'n cynnwys y cyfieithiadau a'r acronymau a ddefnyddir yn y derminoleg Saesneg. Bydd y rhestr hefyd yn gymorth i ddeall rhywfaint o'r derminoleg yn fwy cyffredinol.

Serch hynny, ni ddylid ystyried cynnwys y canllaw hwn yn gyngor cyfreithiol. Os bydd angen cyngor cyfreithiol arnoch chi, dylech gysylltu â chyfreithiwr cymwys. Mae ein hymwadiad cyfreithiol llawn ar gael i'w ddarllen ar ein gwefan fan hyn. Rydyn ni'n bwriadu adolygu'r canllaw hwn yn flynyddol, er mwyn sicrhau bod y wybodaeth sydd ynddo'n gyfredol. Ar frig y dudalen hon, fe welwch chi pryd y cafodd y canllaw ei ddiweddaru ddiwethaf, wrth ymyl 'Fersiwn wedi'i diweddaru'.

Drwy gydol y canllaw hwn, byddwn ni'n cyfeirio at dudalennau perthnasol ar wefan Llywodraeth y DU, gan fod adnoddau pellach ar gael i'w darllen am bynciau penodol. Mae'n bosibl na fydd yr holl wybodaeth yn y canllaw hwn yn berthnasol i'ch sefyllfa chi, ac rydyn ni wedi cynnwys botymau ar rai tudalennau er mwyn eich tywys i'r dudalen berthnasol nesaf. Fodd bynnag, rydyn ni'n argymell eich bod yn ystyried yr holl wybodaeth yn y canllaw hwn, er mwyn i chi fod yn ymwybodol o'r holl opsiynau fisa sydd ar gael i chi. Mae hyn yn arbennig o bwysig os byddwch chi'n trefnu ymweliad creadigol lle bydd mwy nag un unigolyn yn teithio i'r DU, a phan na fydd yr un opsiwn fisa o anghenraid yn addas ar gyfer pawb.

Nod y canllaw hwn yw bod yn adnodd defnyddiol ac ymarferol ar gyfer amrywiaeth o unigolion a sefydliadau sy'n gweithio drwy'r holl sector celfyddydol, a byddwn ni'n croesawu sylwadau unrhyw bryd. Anfonwch e-bost i infopoint@wai.org.uk os bydd gennych chi sylwadau.

Lluniwyd cyhoeddiad gwreiddiol y canllaw hwn ar gyfer Gwybodfan Celf y DU gan Tamizdat mewn cydweithrediad â Latitude Law a Newfields Law.

Mae dolenni'n edrych fel hyn: Blwch glas golau a thestun pinc wedi'i danlinell

Mae botymau'n edrych fel hyn: blwch gwyrddlas a hestun gwyn

# Cynnwys

Mae'r canllaw hwn yn tynnu sylw at yr holl opsiynau fisa sydd ar gael i bobl sy'n cynllunio ymweliad creadigol â'r DU. Bydd rhai ffactorau'n effeithio ar yr opsiynau sydd ar gael i chi, ac rydyn ni wedi grwpio'r wybodaeth yn ôl statws eich cenedligrwydd ar gyfer cael fisa, y math o waith rydych chi'n bwriadu ei wneud tra byddwch chi yn y DU (am dâl neu'n ddi-dâl), a hyd eich arhosiad (cyfnod byr, cyfnod hwy, neu fyw yn y DU). Efallai eich bod chi eisoes yn gwybod pa rai o'r ffactorau hyn sy'n berthnasol i'ch sefyllfa chi, ond rydyn ni'n argymell eich bod yn ystyried yr holl wybodaeth a'r opsiynau sydd ar gael i chi yn y canllaw hwn.


## Ydw i'n Wladolyn Fisa ynteu'n Wladolyn Di-Fisa? 6

Dyma'r cam cyntaf i ddeall pa opsiynau fisa sydd ar gael i chi. Yn yr adran hon rydyn ni'n trafod sut y caiff cenhedloedd eu diffinio gan Lywodraeth y DU a sut y bydd eich cenedligrwydd chi'n effeithio ar yr angen i chi wneud cais am fisa cyn dod i'r DU.

## Gweithgarwch di-dâl: Rwy'n teithio i'r DU fel ymwelydd – a oes modd i mi wneud gweithgarwch di-dâl? 8

Yn yr adran hon, rydyn ni'n dangos sut y gallwch chi ymweld â'r DU fel 'Ymwelydd Cyffredin'. Dyma sut y bydd twristiaid yn ymweld â'r DU at ddibenion teithio ac am resymau hamdden cyffredinol. Mae'n cynnwys rhai mathau **di-dâl a chyfyngedig o weithgarwch** y mae gan weithwyr creadigol proffesiynol yr hawl i'w gwneud pan fyddan nhw'n ymweld â'r Deyrnas Unedig.

# Cynnwys


## Rwy'n bwriadu bod yn y DU i gymryd rhan mewn un digwyddiad yn unig neu i wneud gwaith am gyfnod byr – beth yw fy opsiynau i? 13

Yn yr adran hon, rydyn ni'n dangos yr opsiynau fisa sydd ar gael i weithwyr creadigol proffesiynol sy'n awyddus i weithio yn y DU am gyfnod byr o amser. Mae'r cyfnod hwn gan amlaf yn para rhwng 1 a 3 mis, yn dibynnu ar y gweithgarwch am dâl rydych chi'n bwriadu'i wneud yn y DU (er bod opsiwn cyfyngedig i weithio am hyd at 6 mis).

## Rwy'n bwriadu bod yn y DU i wneud gwaith am gyfnod hwy – beth yw fy opsiynau i? 27

Yn yr adran hon, rydyn ni'n dangos pa fisâu ac opsiynau nawdd sy'n caniatáu i weithwyr creadigol proffesiynol fod yn y DU i wneud gwaith am gyfnod hwy, a hynny am dâl. Rydyn ni'n trafod y meini prawf ar gyfer bod yn gymwys a sut i wneud cais.

## Rwy'n bwriadu symud i'r DU i fyw a gweithio yno – beth yw fy opsiynau i? 35

Yn yr adran hon, rydyn ni'n dangos yr opsiynau nawdd ar gyfer gweithwyr creadigol proffesiynol a hoffai dreulio cyfnod hir yn byw ac yn gweithio yn y DU.

# Ydw i'n Wladolyn Fisa ynteu'n Wladolyn Di-Fisa?

Dyma'r cam cyntaf i ddeall pa opsiynau fisa sydd ar gael i chi. Yn yr adran hon rydyn ni'n trafod sut y caiff cenhedloedd eu diffinio gan Lywodraeth y DU, a sut y bydd eich cenedligrwydd chi'n effeithio ar yr angen i chi wneud cais am fisa cyn dod i'r DU.

Mae cyfraith y DU yn dosbarthu dinasyddion gwledydd eraill yn ddau ddosbarth: 'Gwladolion Fisa' a 'Gwladolion Di-Fisa.' Er mwyn deall sut y mae'r gyfraith yn berthnasol i chi, mae angen i chi wybod i ba ddosbarth rydych chi'n perthyn.

## Gwladolion Fisa

Dyma wladolion tramor sy'n gorfod cael fisa cyn dod i'r DU am unrhyw reswm.

Mae gwledydd 'Gwladolion Fisa' wedi'u rhestru ar wefan Llywodraeth y DU fan hyn.

Mae'r rhestr yn cynnwys nifer o wledydd yn Affrica, America Ladin, y Dwyrain Canol ac Asia. Rhaid i Wladolion Fisa sy'n artistiaid perfformiadol gael rhyw fath o fisa bob tro cyn teithio i'r DU. Mae'r math o fisa y bydd ei angen ar artistiaid perfformiadol yn dibynnu ar beth fyddan nhw'n ei wneud tra byddan nhw yn y DU.

## Gwladolion Di-Fisa

Gwladolion tramor yw'r rhain na fydd angen fisa arnyn nhw cyn dod i'r DU at ddibenion twristiaeth neu i wneud gweithgarwch proffesiynol cyfyngedig.

Ymhlith y gwledydd di-fisa mae Awstralia, Canada, Japan, Seland Newydd, Singapore, De Korea ac UDA. Ers 1 Ionawr 2021, mae gwledydd yr Undeb Ewropeaidd, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, a dinasyddion y Swistir yn perthyn i'r dosbarth 'Gwladolion Di-Fisa'.

Heblaw am rai eithriadau cyfyngedig, efallai y bydd angen i Wladolion Di-Fisa sy'n artistiaid perfformiadol gael fisa cyflogaeth cyn dod i'r DU i berfformio, a bydd y math o fisa y bydd ei angen arnyn nhw'n dibynnu ar beth fyddan nhw'n ei wneud tra byddan nhw yn y DU.

# Ydw i'n Wladolyn Fisa ynteu'n Wladolyn Di-Fisa?

Mae cytundeb ar wahân rhwng y DU, Iwerddon ac ynysoedd Jersey, Guernsey ac Ynys Manaw. Yr Ardal Deithio Gyffredin yw'r enw ar yr ardal hon. Mae'n drefniant ers sbel sy'n perthyn i'r cyfnod cyn i Brydain ac Iwerddon ddod yn aelodau o'r Undeb Ewropeaidd, ac mae'n gytundeb annibynnol.

Drwy gydol y ddogfen hon, byddwn ni'n cyfeirio at yr Ardal Deithio Gyffredin a'i herthyglau, a sut maen nhw'n berthnasol i bobl sy'n teithio i'r DU drwy Iwerddon. Mae hyn oherwydd bod rheolau ychwanegol yn berthnasol yn y sefyllfaoedd hyn, a bydd angen i chi fod yn ymwybodol ohonyn nhw.

Nid oes angen fisa ar ddinasyddion Iwerddon i fyw a gweithio yn y DU. O dan drefniant yr Ardal Deithio Gyffredin, gall dinasyddion Prydain ac Iwerddon symud yn rhydd a byw yn y naill wlad neu'r llall, a chael hawliau a breintiau cysylltiedig, gan gynnwys yr hawl i weithio, astudio a phleidleisio mewn rhai etholiadau, yn ogystal â chael budd-daliadau cymdeithasol a gwasanaethau iechyd.

Mae rhagor o wybodaeth am yr Ardal Deithio Gyffredin fan hyn:
Canllawiau am yr Ardal Deithio Gyffredin

A chithau bellach yn gwybod a ydych chi'n Wladolyn Fisa ynteu'n Wladolyn Di-Fisa, dewiswch y sefyllfa isod sy'n disgrifio orau yr hyn yr hoffech chi'i wneud yn y Deyrnas Unedig:

**Gweithgarwch Di-Dâl**

Mae angen i mi deithio i'r DU i gael cyfarfodydd, i roi perfformiadau hyrwyddo di-dâl, neu i wneud gwaith di-dâl arall.

**Gweithgarwch Am Dâl**

Rwy'n artist perfformiadol, ac mae angen i mi deithio i'r DU lle byddaf yn perfformio ac yn cael fy nhalu cyn gadael y wlad.

**Byw yn y DU**

Mae angen i mi deithio i'r DU i fyw a gweithio yno.

# Gweithgarwch Di-Dâl

## Mae angen i mi deithio i'r DU i gael cyfarfodydd, i roi perfformiadau hyrwyddo di-dâl, neu i wneud gwaith di-dâl arall

O 1 Ionawr 2021, yn y rhan fwyaf o amgylchiadau, os ydych chi'n artist rhyngwladol heb ddinasyddiaeth Brydeinig neu Wyddelig neu sydd heb statws preswylydd sefydlog neu gyn-sefydlog yn y DU, bydd angen cynnig cyflogaeth penodol arnoch chi gan sefydliad trwyddedig cyn dod i'r DU. Fodd bynnag, mae modd i artistiaid tramor wneud rhai mathau o weithgarwch yn y DU heb fod angen unrhyw gynnig cyflogaeth ymlaen llaw.

Yn achos y mathau cyfyngedig, penodol hyn o weithgarwch, gall trydydd parti dalu costau teithio, costau cynhaliaeth a chostau llety'r daith, pan fydd gwir berthynas broffesiynol (neu bersonol) yn bodoli. Fodd bynnag, ni fydd modd eich talu am eich gweithgarwch yn y DU, sy'n golygu na ddylai rhywun yn y DU eich ad-dalu y tu hwnt i gostau treuliau rhesymol.

Y cyfyngiad hwn ar daliad o ffynhonnell yn y DU sy'n tueddu i achosi'r anhawster mwyaf i bobl sy'n gobeithio dod i'r DU fel ymwelwyr creadigol.

Yn gyffredinol, mae taliadau am weithgarwch yn y DU wedi'u gwahardd pan fydd rhywun yn Ymwelydd Cyffredin Creadigol. Ceir dau eithriad sydd o gymorth i bobl greadigol: perfformiadau am dâl mewn Gŵyl Ddidrwydded neu Ymrwymiad Taledig a Ganiateir. Rydyn ni'n trafod y rhain mewn mwy o fanylder yn yr adran 'Gweithgarwch am dâl' ar dudalennau *i*.

Mae rhagor o wybodaeth am y gweithgarwch cyfyngedig y gallwch chi'i wneud fel Ymwelydd Cyffredin â'r Deyrnas Unedig fan hyn:

[Gwybodaeth am Ymwelwyr Cyffredin]
Beth yw Ymwelwyr Cyffredin, a beth gewch chi a beth na chewch chi ei wneud pan fyddwch chi'n Ymwelydd Cyffredin

[Ymwelydd Cyffredin: Ymweld ar fusnes]
Pa weithgarwch sy'n cael ei ganiatáu fel rhan o'ch swydd dramor pan fyddwch chi'n Ymwelydd Cyffredin

## Dyma'r mathau o weithgarwch y gallwch chi'u gwneud fel Ymwelydd Cyffredin yn ddi-dâl:

- Mynd i gynadleddau, cyfarfodydd a chyfweliadau, a thrafod telerau neu lofnodi cytundebau. Mae'r gweithgarwch sy'n cael ei ganiatáu hefyd yn cynnwys rhoi un sgwrs neu araith, neu gyfres o sgyrsiau neu areithiau, cyn belled nad yw'r rhain yn cael eu trefnu fel rhai masnachol nac yn ddigwyddiadau sy'n creu elw;
- Mynd i ffeiriau masnach at ddibenion hyrwyddo yn unig (dim gwerthiant uniongyrchol);

# Gweithgarwch Di-Dâl

- Ymweld â safleoedd, casglu gwybodaeth ar gyfer cynlluniau cyflogaeth yn y DU, neu gael eich briffio ynghylch gofynion cwsmer sydd yn y DU (ar yr amod bod y gwaith yn cael ei wneud y tu allan i'r DU);
- Rhoi perfformiadau fel unigolion neu ran o grŵp, cymryd rhan mewn cystadlaethau neu glyweliadau, a gwneud ymddangosiadau personol a hyrwyddo.

Gall staff personol neu staff cynorthwyol technegol yr artist ddod i'r DU fel Ymwelwyr Cyffredin gyhyd â'u bod yn mynd i'r un digwyddiad â'r artist, y diddanwr neu'r cerddor yn y DU, a gyhyd â'u bod yn cael eu cyflogi ganddyn nhw dramor.

## Y broses ymgeisio

### Gwladolion Fisa

Rhaid i artistiaid sy'n Wladolion Fisa wneud cais am fisa Ymwelwyr Cyffredin cyn teithio i'r DU. Gellir cyflwyno'r ceisiadau hynny mewn unrhyw wlad sydd â chanolfan fisa ar gyfer y DU. Mae rhagor o wybodaeth am beth yw canolfan fisa ar gyfer y DU yn yr adran 'Gweithgarwch di-dâl: Cwestiynau cyffredin' ar dudalen 6. Pris cychwynnol ceisiadau yw £127 a gall fod angen talu ffioedd ychwanegol yn y ganolfan fisa am wasanaethau sy'n cynnig cyfleustra ac apwyntiadau hyblyg i ymgeiswyr. Gofalwch fod gennych chi arian wrth gefn i dalu am unrhyw gostau ychwanegol.

### Gwladolion Di-Fisa

Gall artistiaid nad ydynt yn Wladolion Di-Fisa ddod i'r DU fel Ymwelwyr Cyffredin am hyd at 6 mis. Mae Llywodraeth y DU wedi cyflwyno Awdurdodiad Teithio Electronig (ETA) ar gyfer ymwelwyr i'r DU sydd ddim angen fisa ar gyfer arhosiad byr. Bydd gwadolion di-fisa angen ETA i gael mynediad i'r DU fel Ymwelydd Cyffredigol. Bydd yr ETA yn costio £16, a gellir ei ddefnyddio gymaint o weithiau ag sydd angen o fewn cyfnod o ddwy flynedd.

Mae rhagor o wybodaeth fan hyn am y cynllun gan gynnwys sut i wneud cais:
Canllaw: Ymgeisiwch am Awdurdodiad Teithio Electronig (ETA)

Ni ddylid ystyried y canllaw hwn yn gyngor cyfreithiol. Os bydd angen cyngor cyfreithiol arnoch chi, dylech gysylltu â chyfreithiwr cymwys.
Mae ein hymwadiad cyfreithiol llawn ar gael i'w ddarllen ar ein gwefan fan hyn.

# Gweithgarwch Di-Dâl

Dylai Gwladolion Fisa a Gwladolion Di-Fisa sy'n dymuno dod i mewn i'r DU fel ymwelwyr sicrhau bod ganddyn nhw'r dogfennau canlynol fel tystiolaeth o'r gweithgarwch sydd wedi'i drefnu yn y DU:

- Llythyr croeso gan sefydliad neu ŵyl yn y DU yn cadarnhau bod yr artist wedi ymrwymo i'r gweithgarwch, gan gynnwys unrhyw gontract;
- Prawf o lety wedi'i drefnu yn y DU;
- Tystiolaeth y gall yr artist gynnal ei hun yn y DU heb orfod dibynnu ar gyllid cyhoeddus – e.e. datganiad banc yn dangos y cyllid sydd ar gael;
- Tystiolaeth bod digon o arian ar gyfer y daith yn ôl (fe allwch drefnu eich taith yn ôl a thalu ymlaen llaw amdani, ond cyngor Swyddfa Fisâu a Mewnfudo y DU yw na ddylid gwneud hyn).

Nod Llywodraeth y DU yw gwneud penderfyniad am geisiadau o fewn 3 wythnos, ond gall hynny weithiau gymryd mwy o amser. Efallai y gallwch chi roi eich cais fisa drwy'r llwybr carlam, yn dibynnu ar ba wlad rydych chi'n byw ynddi. Gofynnwch i'r ganolfan fisa a yw hyn yn opsiwn i chi. Dylech ofalu eich bod yn neilltuo digon o amser i gwblhau eich cais ac i gasglu'r dogfennau ategol angenrheidiol.

Mae rhagor o wybodaeth fan hyn am faint o amser mae'n ei gymryd i benderfynu ar geisiadau: Amseroedd aros am benderfyniad fisa: Ceisiadau o'r tu allan i'r DU

## Ymwelwyr Cyffredin sy'n dod i'r DU drwy Iwerddon

Yn y sefyllfa yma, fel Ymwelydd Cyffredin gyda'r trefniadau a'r gwaith papur angenrheidiol yn eu lle, byddwch yn dod i mewn i'r DU o dan Erthygl 4, sy'n ymwneud â 'chaniatâd tybiedig'. Caniatâd i ddod i mewn i'r DU drwy Iwerddon heb fod angen stamp yn eich pasbort yw 'caniatâd tybiedig'. Mae hyn oherwydd na fyddwch o reidrwydd yn cyfarfod â swyddog Llu'r Ffiniau wrth groesi'r ffin rhwng y DU ac Iwerddon. Nid oes angen i chi wneud cais am 'ganiatâd tybiedig', ond rhaid i chi sicrhau bod eich gweithgarwch yn y DU yn ddilys o dan y cyfyngiadau ar gyfer Ymwelwyr Cyffredin.

Mae rhagor o wybodaeth am 'ganiatâd tybiedig' o dan Erthygl 4 yn y canllawiau hyn am yr Ardal Deithio Gyffredin: Teithio i'r DU o Iwerddon, Ynys Manaw, Guernsey a Jersey

Ni ddylid ystyried y canllaw hwn yn gyngor cyfreithiol. Os bydd angen cyngor cyfreithiol arnoch chi, dylech gysylltu â chyfreithiwr cymwys. Mae ein hymwadiad cyfreithiol llawn ar gael i'w ddarllen ar ein gwefan fan hyn.

# Gweithgarwch Di-Dâl

## Cwestiynau cyffredin

### Rwy'n Wladolyn Fisa. Ble mae modd gwneud cais am fisa i Ymwelydd Cyffredin, a pha ddogfennau fydd eu hangen arna' i wrth gyflwyno fy nghais am fisa?

Ewch i wefan Llywodraeth y DU i weld sut mae gwneud cais.

Gellir cyflwyno cais am fisa Ymwelydd Cyffredin mewn unrhyw ganolfan fisa, cenhadaeth diplomyddol Brydeinig, neu swyddfa gonswl dramor lle derbynnir ceisiadau i bobl ddod i mewn i'r wlad.

Fodd bynnag, dylai'r ymgeisydd "fod yn bresennol yn gyfreithiol yn y wlad neu'r diriogaeth y mae'n gwneud cais ohoni".

Mae rhagor o wybodaeth fan hyn am ble i wneud cais am Fisa Ymwelydd Cyffredin:
Sut mae gwneud cais

Swyddfa Fisâu a Mewnfudo y DU: Ble i wneud cais

### Beth yw'r diffiniad o staff cynorthwyol, a pha ddogfennau ategol fydd eu hangen arnyn nhw i gael dod i mewn ar ffin y DU?

Nid oes diffiniad ar gyfer staff cynorthwyol, ond mae canllawiau'r Swyddfa Gartref yn datgan y caiff staff personol neu dechnegol sy'n mynychu'r un digwyddiad ddod gydag artistiaid, diddanwyr neu gerddorion sy'n dod i'r DU, cyn belled â'u bod yn cael eu cyflogi i weithio i'r bobl hyn dramor.

Ymhlith yr enghreifftiau, ond heb fod yn gyfyngedig i'r rhain, mae:

- coreograffwyr
- rheolwyr llwyfan
- artistiaid colur
- swyddogion diogelwch personol
- swyddogion y wasg

Mae'n syniad da teithio gyda phrawf o'ch cyflogaeth dramor – er enghraifft, llythyr wedi'i ysgrifennu gan y cyflogwr sy'n cadarnhau telerau'r gyflogaeth, a hyd a diben yr ymweliad â'r DU.

Mae rhagor o wybodaeth am staff personol neu dechnegol fan hyn:
Canllawiau ymweld y Swyddfa Gartref, tudalen 36: Pobl greadigol

Ni ddylid ystyried y canllaw hwn yn gyngor cyfreithiol. Os bydd angen cyngor cyfreithiol arnoch chi, dylech gysylltu â chyfreithiwr cymwys.
Mae ein hymwadiad cyfreithiol llawn ar gael i'w ddarllen ar ein gwefan fan hyn.

# Gweithgarwch Am Dâl

## Rwy'n artist perfformiadol, ac mae angen i mi deithio i'r DU lle byddaf yn perfformio ac yn cael fy nhalu cyn gadael y wlad

Gall artistiaid sy'n dymuno teithio i'r DU i berfformio, gyda'r bwriad o gael eu talu, wneud rhai mathau o weithgarwch proffesiynol gyda pheth cynllunio ymlaen llaw. Mae gan yr artistiaid hyn chwe phrif lwybr i ddewis o'u plith:

1. Fisa Ymrwymiad Taledig a Ganiateir – arhosiad o hyd at 6 mis ar y mwyaf, ond mae'n rhaid i'r gweithgarwch gael ei gyflawni o fewn y 30 diwrnod cyntaf ar ôl cyrraedd y DU.
2. Gwyliau Didrwydded – arhosiad o 6 mis ar y mwyaf
3. Gwaith Dros Dro – Consesiwn Fisa Gweithiwr Creadigol (ar gyfer Gwladolion Di-Fisa yn unig) – arhosiad o 3 mis ar y mwyaf
4. Gwaith Dros Dro – Fisa Gweithiwr Creadigol
5. Fisa Gweithiwr Symudedd Ieuenctid
6. Trwydded Gweithiwr Trawsffiniol

Mae'r llwybr Ymrwymiad Taledig a Ganiateir, y llwybr Gwaith Dros Dro – Consesiwn Fisa Gweithiwr Creadigol, a'r llwybr Gwyliau Didrwydded (sydd oll yn rhoi 'caniatâd i ddod i mewn') yn llwybrau ar gyfer ymrwymiadau am gyfnodau byr a theithiau. Gall y rhain fod yn llwybrau haws a rhatach na'r llwybrau eraill sydd ar gyfer cyfnodau hwy.

Mae'r llwybrau Gwaith Dro – Fisa Gweithiwr Creadigol, Fisa Gweithiwr Symudedd Ieuenctid, a Thrwydded Gweithiwr Trawsffiniol yn llwybrau sy'n caniatáu aros am gyfnod hwy, ond mae angen talu mwy o gostau i gael y Fisa Gweithiwr Creadigol a'r Fisa Gweithiwr Symudedd Ieuenctid. Mae modd cael y Drwydded Gweithiwr Trawsffiniol yn rhad ac am ddim, ond mae wedi'i chyfyngu i bobl o nifer bychan o genhedloedd.

## I gael rhagor o wybodaeth am y llwybrau fisa hyn, dewiswch yr opsiwn sy'n disgrifio orau y gweithgarwch rydych chi'n bwriadu'i wneud yn y DU:

Rwy'n bwriadu bod yn y DU ar gyfer digwyddiad untro neu i wneud gwaith am gyfnod byr

Rwy'n bwriadu bod yn y DU i wneud gwaith am gyfnod hwy

Rwy'n bwriadu symud i'r DU i fyw a gweithio

Ni ddylid ystyried y canllaw hwn yn gyngor cyfreithiol. Os bydd angen cyngor cyfreithiol arnoch chi, dylech gysylltu â chyfreithiwr cymwys.
Mae ein hymwadiad cyfreithiol llawn ar gael i'w ddarllen ar ein gwefan fan hyn.

# Gweithgarwch Am Gyfnod Byr Am Dâl yn y DU

## Rwy'n bwriadu bod yn y DU ar gyfer digwyddiad untro neu i wneud gwaith am gyfnod byr.

Mae'r llwybrau fisa hyn ar gyfer Gwladolion Fisa a Gwladolion Di-Fisa sy'n cynllunio teithiau fforddiadwy am gyfnod byr yn y DU. Ar waelod tudalen pob llwybr mynediad, bydd botwm i ddychwelyd i'r dudalen hon, fel y gallwch chi symud yn ôl ac ymlaen yn rhwydd rhwng y llwybrau mynediad. Rydyn ni'n argymell eich bod chi'n ystyried yr holl wybodaeth sydd ar gael am y llwybrau canlynol. Fodd bynnag, mae croeso i chi neidio i'r llwybrau unigol drwy ddewis y botymau perthnasol isod.

## Gwladolion Fisa

### Ymrwymiad Taledig a Ganiateir

Gall artistiaid ddod i mewn i'r DU i gyflawni ymrwymiadau am gyfnod byr, a hynny am dâl, o dan reolau Ymrwymiad Taledig a Ganiateir, gan allu aros am hyd at 6 mis fel Ymwelwyr Cyffredin. Serch hynny, rhaid i'r gweithgarwch gael ei gyflawni yn y 30 diwrnod cyntaf ar ôl cyrraedd y DU.

Gwybodaeth 14
Cwestiynau cyffredin 17

### Gwyliau Didrwydded

Gall artistiaid ddod i'r DU o dan reolau Ymwelwyr Cyffredin a chyflawni ymrwymiadau am dâl mewn un neu ragor o Wyliau Didrwydded, gan aros am hyd at **6 mis**.

Gwybodaeth 21
Cwestiynau cyffredin 22

Nid yw'r llwybr Gwaith Dros Dro – Consesiwn Fisa Gweithiwr Creadigol yn opsiwn ar gyfer Gwladolion Fisa. Serch hynny, efallai y byddai'r llwybr Gwaith Dro – Fisa Gweithiwr Creadigol yn addas. Darllenwch fwy am y llwybr hwn o dan yr adran 'Gweithgarwch am gyfnod hwy am dâl' fan hyn.

## Gwladolion Di-Fisa

### Ymrwymiad Taledig a Ganiateir

Gall artistiaid ddod i mewn i'r DU i gyflawni ymrwymiadau am gyfnod byr, a hynny am dâl, o dan reolau Ymrwymiad Taledig a Ganiateir, gan allu aros am hyd at 6 mis fel Ymwelwyr Cyffredin. Serch hynny, rhaid i'r gweithgarwch gael ei gyflawni yn y 30 diwrnod cyntaf ar ôl cyrraedd y DU.

Gwybodaeth 14
Cwestiynau cyffredin 17

### Gwyliau Didrwydded

Gall artistiaid ddod i'r DU o dan reolau Ymwelwyr Cyffredin a chyflawni ymrwymiadau am dâl mewn un neu ragor o Wyliau Didrwydded, gan aros am hyd at **6 mis**.

Gwybodaeth 21
Cwestiynau cyffredin 22

### Gwaith Dros Dro – Consesiwn Fisa Gweithiwr Creadigol

Gall artistiaid ddod i'r DU drwy'r llwybr Gwaith Dros Dro – Consesiwn Fisa Gweithiwr Creadigol i wneud gwaith am gyfnod byr, a hynny am dâl, sy'n golygu aros am hyd at **3 mis**.

Gwybodaeth 25

Ni ddylid ystyried y canllaw hwn yn gyngor cyfreithiol. Os bydd angen cyngor cyfreithiol arnoch chi, dylech gysylltu â chyfreithiwr cymwys.
Mae ein hymwadiad cyfreithiol llawn ar gael i'w ddarllen ar ein gwefan fan hyn.

# Ymrwymiad Taledig a Ganiateir: Gwybodaeth

## Ar gyfer teithio am gyfnod byr yn fwy fforddiadwy yn y DU

Gall artist 18 oed neu hŷn sy'n dod i'r DU am hyd at fis gymryd rhan mewn un neu ragor o Ymrwymiadau Taledig a Ganiateir. Mae hwn yn opsiwn ar gyfer gweithwyr proffesiynol sydd wedi ennill eu plwyf.

Rhaid i'r ymrwymiad gael ei drefnu cyn i'r artist gyrraedd y DU a rhaid i'r artist gael llythyr gwahoddiad ffurfiol gan sefydliad creadigol, asiant neu ddarlledwr yn y DU. Dylai'r llythyr gwahoddiad egluro natur yr ymrwymiad, gan gynnwys ei ddyddiadau a'i leoliad, a sut mae'n uniongyrchol gysylltiedig ag arbenigedd a phrofiad yr artist. Dylai'r trefnydd enwi unrhyw lety a drefnwyd yn y llythyr gwahoddiad.

Mae hi hefyd yn syniad da i artistiaid baratoi portffolio sy'n cyfeirio at eu gwaith, eu henwogrwydd, unrhyw enillion, ac ymrwymiadau gwaith presennol y tu allan i'r DU, ynghyd â sôn am natur eu hymrwymiad yn y DU.

Byddwch chi'n cael caniatâd i ddod i mewn i gyflawni Ymrwymiad Taledig a Ganiateir ym maes y celfyddydau ac adloniant (gan gynnwys darlledu) os byddwch chi'n teithio ac os bydd trefniadau'ch taith yn bodloni'r gofynion hyn:

a. Rhaid i chi fod yn 18 oed neu'n hŷn;
b. Rhaid i chi fod yn ymweld â'r DU am ddim mwy na 6 mis, a byddwch chi'n cyflawni'r Ymrwymiad Taledig a Ganiateir o fewn y 30 diwrnod cyntaf ar ôl cyrraedd y DU;
c. Rhaid i chi fod â digon o arian i gynnal eich hun a chanfod llety i'ch hun;
d. Rhaid i chi fod â digon o arian i dalu am eich taith adref neu'ch taith ymlaen;
e. Pan fyddwch chi'n gadael, fyddwch chi ddim yn teithio drwy Iwerddon, Ynys Manaw nac Ynysoedd y Sianel.

Mae rhagor o wybodaeth am Ymrwymiad Taledig a Ganiateir fan hyn: [Ymweld â'r DU: Ymwelwyr Ymrwymiad Taledig a Ganiateir]

Ni ddylid ystyried y canllaw hwn yn gyngor cyfreithiol. Os bydd angen cyngor cyfreithiol arnoch chi, dylech gysylltu â chyfreithiwr cymwys. Mae ein hymwadiad cyfreithiol llawn ar gael i'w ddarllen ar ein gwefan fan hyn.

# Ymrwymiad Taledig a Ganiateir: Gwybodaeth

## Y broses ymgeisio

### Gwladolion Fisa

Rhaid i artistiaid sy'n Wladolion Fisa bellach wneud cais i ymweld â'r DU o dan y llwybr i Ymwelwyr Cyffredin, gan fod yr hen ddarpariaethau ar gyfer Ymrwymiad Taledig a Ganiateir bellach yn dod o dan y llwybr hwn. Y ffi i wneud cais am Fisa Ymwelydd Cyffredin am chwe mis yw £127 a gall y ganolfan fisa godi ffioedd ychwanegol am wasanaethau sy'n cynnig cyfleustra ac apwyntiadau hyblyg i ymgeiswyr.

### Gwladolion Di-Fisa

Gall artistiaid sy'n Wladolion Di-Fisa ddod i mewn i'r DU heb orfod gwneud cais fel Ymwelwyr Cyffredin, ond bydd angen Awdurdodiad Teithio Electronig arnyn nhw, yn dibynnu pryd y byddan nhw'n dod i mewn i'r wlad, fel yr esbonnir uchod. Os byddwch chi'n gymwys, gallwch chi bellach ddod i mewn drwy'r system eGates, ond mae'n bwysig bod gennych chi'r holl ddogfennau cywir wrth law (trafodir hyn isod yn yr adran am gyrraedd), rhag ofn y bydd Swyddog Ffiniau yn gofyn am eu gweld.

Ewch i wefan Llywodraeth y DU i weld sut mae gwneud cais.

Gellir cyflwyno fisa ymwelwyr safonol "mewn unrhyw ganolfan ymgeisio am fisa, cenhedaeth ddiplomyddol Brydeinig neu swydd gonsylaidd dramor lle derbynnir ceisiadau clirio mynediad".

Fodd bynnag, dylai'r ymgeisydd "fod yn bresennol yn gyfreithiol yn y wlad neu'r diriogaeth y maent yn gwneud cais ohoni".

Nod Llywodraeth y DU yw gwneud penderfyniad am geisiadau o fewn 3 wythnos, ond gall hynny weithiau gymryd mwy o amser. Dylech ofalu eich bod yn neilltuo digon o amser i gwblhau eich cais ac i gasglu'r dogfennau ategol angenrheidiol. Y cynharaf y gallwch chi wneud cais am Fisa Ymwelydd Cyffredin yw 3 mis cyn i chi deithio.

Mae rhagor o wybodaeth fan hyn am ble i wneud cais am Fisa Ymwelydd Cyffredin:
Sut mae gwneud cais

Swyddfa Fisâu a Mewnfudo y DU: Ble i wneud cais

Mae rhagor o wybodaeth fan hyn am faint o amser mae'n ei gymryd i wneud penderfyniadau ynghylch ceisiadau:
Amseroedd aros am benderfyniadau fisa: ceisiadau o'r tu allan i'r DU

Ni ddylid ystyried y canllaw hwn yn gyngor cyfreithiol. Os bydd angen cyngor cyfreithiol arnoch chi, dylech gysylltu â chyfreithiwr cymwys.
Mae ein hymwadiad cyfreithiol llawn ar gael i'w ddarllen ar ein gwefan fan hyn.

# Ymrwymiad Taledig a Ganiateir: Gwybodaeth

## Dod i mewn i'r DU drwy Iwerddon gyda fisa Ymrwymiad Taledig a Ganiateir

Os ydych chi'n dod i'r DU drwy Iwerddon i gyflawni Ymrwymiad Taledig a Ganiateir, gallwch chi aros yn y DU gyda 'chaniatâd tybiedig' o dan Erthygl 6 am hyd at fis. Caniatâd i ddod i mewn i'r DU drwy Iwerddon heb fod angen stamp yn eich pasbort yw 'caniatâd tybiedig'. Mae hyn oherwydd na fyddwch o reidrwydd yn cyfarfod â swyddog Llu'r Ffiniau wrth groesi'r ffin rhwng y DU ac Iwerddon.

Cytundeb rhwng y DU ac Iwerddon yw'r Ardal Deithio Gyffredin. Mae rhagor o wybodaeth fan hyn: Canllawiau am yr Ardal Deithio Gyffredin

Nid oes angen i chi wneud cais am 'ganiatâd tybiedig'. Mae eich 'caniatâd tybiedig' yn dechrau o'r dyddiad y byddwch yn dod i mewn i'r DU o Iwerddon am y tro cyntaf. Gallwch brofi'r dyddiad hwn, er enghraifft, gyda'ch tocyn neu'ch pas teithio. Daw'r 'caniatâd tybiedig' hwn i ben pan fyddwch chi'n gadael y DU.

Mae rhagor o wybodaeth am 'ganiatâd tybiedig' o dan Erthygl 6 fan hyn: Canllawiau am yr Ardal Deithio Gyffredin, tudalen 61: Caniatâd tybiedig o dan Erthygl 6 ar gyfer Ymrwymiad Taledig a Ganiateir

# Ymrwymiad Taledig a Ganiateir: Cwestiynau Cyffredin

Ar gyfer teithio am gyfnod byr yn fwy fforddiadwy yn y DU

→ **Rwy'n artist sy'n Wladolyn Fisa, ac mae cynlluniau fy nhaith yn y DU yn bodloni'r gofynion ar gyfer Ymrwymiadau Taledig a Ganiateir. Beth fydd ei angen arna' i cyn teithio?**

Bydd artistiaid sy'n Wladolion Fisa ac sy'n cael eu gwahodd i'r DU er mwyn cyflawni Ymrwymiad Taledig a Ganiateir yn cael gweithio yn y DU am hyd at fis (30 diwrnod).

Gallwch chi wneud cais i ymweld â'r DU fel Ymwelydd Cyffredin a datgan fel rhan o'r cais hwn eich bod chi'n bwriadu cyflawni Ymrwymiad Taledig a Ganiateir tra byddwch chi yn y DU. Bydd y ffurflen gais yn gofyn i chi am y prif reswm dros ymweld â'r DU. Os byddwch chi'n dewis 'Arall' o'r rhestr o opsiynau, byddwch chi'n cael lle i ddatgan eich gweithgarwch Ymrwymiad Taledig a Ganiateir.

I gyd-fynd â'ch cais, rhaid i chi ddarparu tystiolaeth ddogfennol gan gynnwys gwahoddiad ffurfiol gan y sefydliad celfyddydol yn cadarnhau manylion yr Ymrwymiad Taledig a Ganiateir, a thystiolaeth bod hwnnw'n gysylltiedig â'ch proffesiwn amser llawn a/neu eich cymwysterau. Rhaid i'r cais am fisa ddatgan bod hyn wedi cael ei drefnu cyn i chi deithio i'r DU. Pan fyddwch chi'n gwneud cais am y fisa, bydd rhaid i chi gyflwyno'r dogfennau canlynol:

a. pasbort cyfredol neu ddogfen deithio ddilys arall – rhaid bod tudalen wag yn eich pasbort ar gyfer eich fisa;
b. prawf y gallwch chi gynnal eich hun yn ystod eich taith – er enghraifft, datganiadau banc neu slipiau talu am y 6 mis diwethaf, neu fanylion y taliad y byddwch chi'n ei gael am eich perfformiadau yn y DU;
c. manylion ble rydych chi'n bwriadu aros a'ch cynlluniau teithio – ond nid oes yn rhaid talu am lety neu deithio tan i chi gael eich fisa;
d. gwahoddiad ffurfiol gan y sefydliad neu'r awdurdod yn y DU a fydd yn eich talu;
e. prawf fod yr ymrwymiad am dâl yn gysylltiedig â'ch arbenigedd, eich cymwysterau, a'ch gwaith yn eich gwlad gartref neu yn rhyngwladol.

Ni ddylid ystyried y canllaw hwn yn gyngor cyfreithiol. Os bydd angen cyngor cyfreithiol arnoch chi, dylech gysylltu â chyfreithiwr cymwys. Mae ein hymwadiad cyfreithiol llawn ar gael i'w ddarllen ar ein gwefan fan hyn.

# Ymrwymiad Taledig a Ganiateir: Cwestiynau Cyffredin

## Ar gyfer teithio am gyfnod byr yn fwy fforddiadwy yn y DU

→ ### Rwy'n artist sy'n Wladolyn Di-Fisa, ac mae cynlluniau fy nhaith yn y DU yn bodloni'r gofynion ar gyfer Ymrwymiadau Taledig a Ganiateir. Beth fydd ei angen arna' i cyn teithio?

Bydd artistiaid sy'n Wladolion Di-Fisa a gaiff eu gwahodd i'r DU i gyflawni Ymrwymiad Taledig a Ganiateir yn gallu aros yn y DU am hyd at 6 mis. Serch hynny, rhaid cyflawni'r gweithgarwch yn y 30 diwrnod cyntaf ar ôl cyrraedd y DU.

Bellach, nid oes gofyn i Wladolion Di-Fisa chwilio am un o swyddogion Llu'r Ffiniau ar ôl cyrraedd y DU, ac yn hytrach mae modd iddyn nhw ddefnyddio'r system eGates pan fydd hynny'n bosibl. Sylwch fod arwyddion ym meysydd awyr y DU yn dal i ddweud bod angen gwneud mynd drwy swyddog, ond gallwch anwybyddu'r arwyddion hynny. Serch hynny, dylai Gwladolion Di-Fisa wastad gario tystiolaeth ddogfennol (yn ddigidol neu'n ddogfennau papur) o'u Hymrwymiad Taledig a Ganiateir. Fel uchod, bydd angen Awdurdodiad Teithio Electronig arnoch chi cyn teithio i'r DU.

Dylai'r dystiolaeth ddogfennol gynnwys gwahoddiad ffurfiol gan y sefydliad celfyddydol yn cadarnhau manylion yr Ymrwymiad Taledig a Ganiateir, a thystiolaeth bod hwnnw'n gysylltiedig â'ch proffesiwn amser llawn a/neu eich cymwysterau. Pan fyddwch chi'n cyrraedd y DU, dylech gael y canlynol wrth law, gan y gallai Swyddog Ffiniau ofyn am eu gweld:

a. pasbort cyfredol neu ddogfen deithio ddilys arall;
b. prawf y gallwch chi gynnal eich hun yn ystod eich taith – er enghraifft, datganiadau banc neu slipiau talu am y 6 mis diwethaf, neu fanylion y taliad y byddwch chi'n ei gael am eich perfformiadau yn y DU;
c. manylion ble rydych chi'n bwriadu aros a'ch trefniadau teithio;
d. gwahoddiad ffurfiol gan y sefydliad neu'r awdurdod yn y DU a fydd yn eich talu;
e. prawf fod yr ymrwymiad am dâl yn gysylltiedig â'ch arbenigedd, eich cymwysterau, a'ch gwaith yn eich gwlad gartref neu yn rhyngwladol.

Ni ddylid ystyried y canllaw hwn yn gyngor cyfreithiol. Os bydd angen cyngor cyfreithiol arnoch chi, dylech gysylltu â chyfreithiwr cymwys. Mae ein hymwadiad cyfreithiol llawn ar gael i'w ddarllen ar ein gwefan fan hyn.

# Ymrwymiad Taledig a Ganiateir: Cwestiynau Cyffredin

Ar gyfer teithio am gyfnod byr yn fwy fforddiadwy yn y DU

## → Beth fydd angen i mi ei wneud wrth gyrraedd y DU?

Os ydych chi'n Wladolyn Fisa sy'n cyrraedd y DU i gyflawni Ymrwymiad Taledig a Ganiateir, dylech chwilio am un o swyddogion Llu'r Ffiniau wrth ddod i mewn i'r wlad er mwyn cael stamp ar eich pasbort a dod i mewn i'r DU fel Ymwelydd Cyffredin. Gofalwch fod gennych chi'r holl ddogfennau sy'n ymwneud â'ch Ymrwymiad Taledig a Ganiateir i'w dangos i swyddogion Llu'r Ffiniau os gofynnir am eu gweld.

Os ydych chi'n Wladolyn Di-Fisa sy'n dod i'r DU i gyflawni Ymrwymiad Taledig a Ganiateir, mae'r Swyddfa Gartref wedi cadarnhau nad oes gofyn i chi gael stamp penodol wrth groesi'r ffin a bod modd i chi ddod i mewn gan ddefnyddio'r system eGates pan fydd hynny'n bosibl.

## → A yw Ymrwymiad Taledig a Ganiateir yn gallu bod ar gyfer mwy nag un ymrwymiad, gyda gwahanol gwmnïau? Er enghraifft, taith o amgylch gwahanol leoliadau?

Mae paragraff 13.2 o Immigration Rules Appendix V: Visitor yn cyfeirio at un (neu ragor) o Ymrwymiadau Taledig a Ganiateir y bydd yr ymwelydd yn bwriadu'u cyflawni, ac mae paragraff 19 o Immigration Rules Appendix Visitor: Permitted Activities yn dweud y gall ymwelydd gyflawni'r Ymrwymiadau Taledig a Ganiateir a restrir yn V 13.3, cyn belled â bod y rheini'n cael eu cwblhau yn y 30 diwrnod cyntaf ar ôl i'r ymwelydd ddod i mewn i'r DU, a bod gofynion V 13.1 i V13.2 yn cael eu bodloni.

## → A all staff cynorthwyol technegol neu bersonol, neu dîm cynhyrchu, ddod i mewn i'r DU hefyd drwy lwybr Ymrwymiad Taledig a Ganiateir?

Gall staff personol neu dechnegol artistiaid, neu aelodau'r tîm cynhyrchu, ddod i mewn i'r DU fel Ymwelwyr Cyffredin er mwyn cynorthwyo gyda gweithgarwch yr artist, y diddanwr neu'r cerddor sy'n dod i'r DU i gyflawni Ymrwymiad Taledig a Ganiateir, cyn belled â'u bod nhw'n mynychu'r un digwyddiad ac wedi'u cyflogi i weithio i'r artist y tu allan i'r DU. Byddai'r canllawiau i Ymwelwyr Cyffredin yn berthnasol i staff cynorthwyol o'r fath. Mae rhagor o wybodaeth am y llwybr i Ymwelwyr Cyffredin ac am gyflawni gweithgarwch di-dâl yn y DU ar dudalen 4.

Ni ddylid ystyried y canllaw hwn yn gyngor cyfreithiol. Os bydd angen cyngor cyfreithiol arnoch chi, dylech gysylltu â chyfreithiwr cymwys.
Mae ein hymwadiad cyfreithiol llawn ar gael i'w ddarllen ar ein gwefan fan hyn.

# Ymrwymiad Taledig a Ganiateir: Cwestiynau Cyffredin

Ar gyfer teithio am gyfnod byr yn fwy fforddiadwy yn y DU

## → A all unigolyn gyfuno taith drwy'r llwybr Ymrwymiad Taledig a Ganiateir a'r llwybr Gwyliau Didrwydded mewn un ymweliad?

Mae hyn yn bosibl, cyn belled â bod unrhyw Ymrwymiad Taledig a Ganiateir yn cael ei gyflawni a'i gwblhau yn y 30 diwrnod cyntaf ar ôl dod i mewn i'r DU.

Rhaid i'r ymwelydd ddatgan yr holl weithgarwch y mae'n bwriadu'i gyflawni fel rhan o'r cais, er mwyn cael hawl neu ganiatâd i ddod i mewn i'r DU. Rhaid darparu tystiolaeth hefyd o'r gwahoddiad ffurfiol i unrhyw ddigwyddiadau, gan gynnwys gweithgarwch Ymrwymiad Taledig a Ganiateir a Gwyliau Didrwydded yn y DU.

## → A oes terfyn penodol ar faint o weithiau y galla' i ymweld â'r DU mewn blwyddyn?

Nid oes cyfyngiad penodol ar nifer yr ymweliadau y gall unigolyn eu gwneud i'r DU mewn unrhyw flwyddyn, cyn belled nad ydyn nhw'n treulio mwy na chwe mis yn y DU ar bob ymweliad. Fodd bynnag, y cyngor cyffredinol yw y dylai unigolion beidio â threulio mwy na hanner eu hamser yn y DU, gan y byddai hyn yn cael ei ystyried yn ymgais i breswylio yn y DU drwy ymweliadau, ac nid yw hynny'n cael ei ganiatáu. Fel rhan o'ch cais am fisa Ymwelydd Cyffredin, rhaid dangos eich bwriad i adael y DU ar ôl eich ymweliad.

Ni ddylid ystyried y canllaw hwn yn gyngor cyfreithiol. Os bydd angen cyngor cyfreithiol arnoch chi, dylech gysylltu â chyfreithiwr cymwys. Mae ein hymwadiad cyfreithiol llawn ar gael i'w ddarllen ar ein gwefan fan hyn.

# Gwyliau Didrwydded: Gwybodaeth

## Ar gyfer teithio am gyfnod byr yn fwy fforddiadwy yn y DU

Gall artistiaid, diddanwyr a cherddorion sy'n ymweld â'r DU o dan y rheolau i Ymwelwyr Cyffredin gymryd rhan mewn un neu ragor o ddigwyddiadau neu wyliau diwylliannol sydd ar y rhestr o Wyliau Didrwydded, ac mae hawl i roi tâl am hynny.

Dylai artistiaid sicrhau bod ganddyn nhw lythyr croesawu gan y sefydliad neu'r ŵyl yn y DU, a hwnnw'n cadarnhau'r gweithgarwch. Dylid cynnwys unrhyw gontract hefyd yn rhan o'r llythyr, a dylid gallu bodloni'r holl ofynion sy'n berthnasol i Ymwelwyr Cyffredin yng nghyswllt gweithgarwch di-dâl, gan gynnwys profi bod gan yr artist ddigon o arian i'w gynnal ei hun tra bydd yn y DU ac i ddychwelyd adref.

Mae rhestr o'r Gwyliau Didrwydded i'w gweld fan hyn:
Rhestr o'r Gwyliau Didrwydded

## Y broses ymgeisio

### Gwladolion Fisa

Rhaid i artistiaid sy'n Wladolion Fisa wneud cais am fisa Ymwelwyr Cyffredin cyn teithio i'r DU. Y ffi i wneud cais yw £127 a gall y ganolfan fisa godi ffioedd ychwanegol am wasanaethau sy'n cynnig cyfleustra ac apwyntiadau hyblyg i ymgeiswyr.

Ewch i wefan Llywodraeth y DU i weld sut mae gwneud cais.

Gellir cyflwyno fisa ymwelwyr safonol "mewn unrhyw ganolfan ymgeisio am fisa, cenhedaeth ddiplomyddol Brydeinig neu swydd gonsylaidd dramor lle derbynnir ceisiadau clirio mynediad".

Fodd bynnag, dylai'r ymgeisydd "fod yn bresennol yn gyfreithiol yn y wlad neu'r diriogaeth y maent yn gwneud cais ohoni".

Nod Llywodraeth y DU yw gwneud penderfyniad am geisiadau o fewn 3 wythnos, ond gall hynny weithiau gymryd mwy o amser. Dylech ofalu eich bod yn neilltuo digon o amser i gwblhau eich cais ac i gasglu'r dogfennau ategol angenrheidiol.

### Gwladolion Di-Fisa

Gall artistiaid sy'n Wladolion Di-Fisa ddod i mewn i'r DU o dan y llwybr hwn heb orfod gwneud cais am fisa o dramor, bydd angen iddyn nhw gael Awdurdodiad Teithio Electronig. Gallwch chi ddefnyddio'r system eGates awtomatig wrth gyrraedd y DU os byddwch chi'n gymwys.

Mae rhagor o wybodaeth fan hyn am ble i wneud cais am Fisa Ymwelydd Cyffredin:
Sut mae gwneud cais

Swyddfa Fisâu a Mewnfudo y DU: Ble i wneud cais

Mae rhagor o wybodaeth fan hyn am faint o amser mae'n ei gymryd i wneud penderfyniadau ynghylch ceisiadau:
Amseroedd aros am benderfyniadau fisa: Ceisiadau o'r tu allan i'r DU

Ni ddylid ystyried y canllaw hwn yn gyngor cyfreithiol. Os bydd angen cyngor cyfreithiol arnoch chi, dylech gysylltu â chyfreithiwr cymwys. Mae ein hymwadiad cyfreithiol llawn ar gael i'w ddarllen ar ein gwefan fan hyn.

# Gwyliau Didrwydded: Cwestiynau Cyffredin

Ar gyfer teithio am gyfnod byr yn fwy fforddiadwy yn y DU

## Pa wyliau yw'r Gwyliau Didrwydded?

Mae'n rhaid gwneud cais i ddod yn Ŵyl Ddidrwydded. Mae rhagor o wybodaeth isod am sut i wneud cais i ddod yn Ŵyl Ddidrwydded. Bydd Llywodraeth y DU yn diweddaru'r rhestr o Wyliau Didrwydded ar ei gwefan.

Mae rhestr o'r Gwyliau Didrwydded i'w gweld fan hyn:
Rhestr o'r Gwyliau Didrwydded

## Sut mae cynnwys fy ngŵyl i ar y rhestr hon?

Mae gwefan Llywodraeth y DU yn egluro beth yw'r broses i wneud cais i ddod yn Ŵyl Ddidrwydded, gan gynnwys y dyddiadau cau ar gyfer gwneud cais.

Mae rhagor o wybodaeth am y rheolau a'r gweithdrefnau ar gyfer dod yn Ŵyl Ddidrwydded fan hyn:
Sut i wneud cais i fod ar y rhestr o Wyliau Didrwydded

## Rwy'n Wladolyn Fisa. Ble galla' i ymgeisio am fisa i Ymwelydd Cyffredin, a pha ddogfennau fydd eu hangen arna' i wrth gyflwyno fy nghais am fisa ymwelydd ac ystyried fy mod i am berfformio mewn Gŵyl Ddidrwydded?

Os ydych chi'n Wladolyn Fisa sy'n bwriadu perfformio mewn Gŵyl Ddidrwydded, fel rhan o'ch cais am fisa, bydd angen cynnwys llythyr yn cadarnhau eich bod yn cymryd rhan yn yr Ŵyl Ddidrwydded. Bydd angen i chi ddangos hefyd y dogfennau arferol a enwir yn y cais am fisa, gan gynnwys pasbort, tystiolaeth bod gennych chi arian, a ffotograffau. Efallai hefyd y byddwch chi am gynnwys contract eich lleoliad, sy'n cadarnhau'r trefniant i chi berfformio. Gallwch wneud cais hyd at dri mis ymlaen llaw am y fisa. Mae'r fisa i Ymwelwyr Cyffredin yn costio £127 a bydd hwnnw gan amlaf yn cymryd 3 wythnos i'w brosesu.
Gallwch ddarganfod sut i wneud cais ar wefan Llywodraeth y DU.

Ni ddylid ystyried y canllaw hwn yn gyngor cyfreithiol. Os bydd angen cyngor cyfreithiol arnoch chi, dylech gysylltu â chyfreithiwr cymwys.
Mae ein hymwadiad cyfreithiol llawn ar gael i'w ddarllen ar ein gwefan fan hyn.

# Gwyliau Didrwydded: Cwestiynau Cyffredin

Ar gyfer teithio am gyfnod byr yn fwy fforddiadwy yn y DU

→ **Beth fydd angen i mi ei wneud wrth gyrraedd y DU pan fydda' i'n perfformio mewn Gŵyl Ddidrwydded?**

Gallwch chi ddefnyddio'r system eGates wrth gyrraedd y DU os byddwch chi'n gymwys. Fel arall, bydd angen i chi fynd at un o swyddogion Llu'r Ffiniau a dangos pasbort neu ddogfen deithio ddilys. Dylai'ch pasbort fod yn ddilys drwy gydol eich arhosiad yn y DU. Efallai hefyd y bydd gofyn i chi ddangos eich bod yn bodloni gofynion y llwybr i Ymwelwyr Cyffredin sy'n golygu darparu'r dogfennau a restrir uchod.

→ **A all staff cynorthwyol technegol neu bersonol, neu dîm cynhyrchu, ddod i mewn i'r DU hefyd drwy lwybr Gwyliau Didrwydded?**

Gall staff personol neu dechnegol artistiaid, neu aelodau'r tîm cynhyrchu, ddod i mewn i'r DU fel Ymwelwyr Cyffredin er mwyn cynorthwyo gyda gweithgarwch yr artist, y diddanwr neu'r cerddor sy'n dod i'r DU i berfformio mewn Gŵyl Ddidrwydded, cyn belled â'u yn mynychu'r un digwyddiad ac wedi'u cyflogi i weithio i'r artist y tu allan i'r DU. Byddai'r canllawiau i Ymwelwyr Cyffredin yn berthnasol i staff cynorthwyol o'r fath. Mae rhagor o wybodaeth am y llwybr i Ymwelwyr Cyffredin ac am gyflawni gweithgarwch di-dâl yn y DU ar dudalen 4.

Ni ddylid ystyried y canllaw hwn yn gyngor cyfreithiol. Os bydd angen cyngor cyfreithiol arnoch chi, dylech gysylltu â chyfreithiwr cymwys. Mae ein hymwadiad cyfreithiol llawn ar gael i'w ddarllen ar ein gwefan fan hyn.

# Gwyliau Didrwydded: Cwestiynau Cyffredin

Ar gyfer teithio am gyfnod byr yn fwy fforddiadwy yn y DU

→ A all unigolyn gyfuno taith drwy'r llwybr Gwyliau Didrwydded a'r llwybr Ymrwymiad Taledig a Ganiateir mewn un ymweliad?

Mae hyn yn bosibl, cyn belled â bod unrhyw Ymrwymiad Taledig a Ganiateir yn cael ei gyflawni a'i gwblhau yn y 30 diwrnod cyntaf ar ôl dod i mewn i'r DU.

Rhaid i'r ymwelydd ddatgan yr holl weithgarwch y mae'n bwriadu'i gyflawni fel rhan o'r cais, er mwyn cael hawl neu ganiatâd i ddod i mewn i'r DU. Rhaid darparu tystiolaeth hefyd o'r gwahoddiad ffurfiol i unrhyw ddigwyddiadau, gan gynnwys gweithgarwch Ymrwymiad Taledig a Ganiateir a Gwyliau Didrwydded yn y DU.

→ A oes terfyn penodol ar faint o weithiau y galla' i ymweld â'r DU mewn blwyddyn?

Nid oes cyfyngiad penodol ar nifer yr ymweliadau y gall unigolyn eu gwneud i'r DU mewn unrhyw flwyddyn, ond rhaid i chi beidio â threulio mwy na chwe mis yn y DU ar bob ymweliad. Fodd bynnag, y cyngor cyffredinol yw na ddylai unigolion dreulio mwy na hanner eu hamser yn y DU, gan y byddai hyn yn cael ei ystyried fel ymgais i breswylio yn y DU drwy ymweliadau, ac nid oes hawl gwneud hynny.

Ni ddylid ystyried y canllaw hwn yn gyngor cyfreithiol. Os bydd angen cyngor cyfreithiol arnoch chi, dylech gysylltu â chyfreithiwr cymwys.
Mae ein hymwadiad cyfreithiol llawn ar gael i'w ddarllen ar ein gwefan fan hyn.

# Gwaith Dros Dro – Consesiwn Fisa Gweithiwr Creadigol: Gwybodaeth

Ar gyfer Gwladolion Di-Fisa a theithiau mwy fforddiadwy am gyfnod byr yn y DU

## Llwybr i Wladolion Di-Fisa yn unig yw hwn.

Gall artistiaid sy'n Wladolion Di-Fisa ddod i'r DU drwy'r llwybr hwn heb orfod gwneud cais am fisa o dramor, ond bydd angen Awdurdodiad Teithio Electronig arnyn nhw, yn dibynnu ar ba bryd y byddan nhw'n dod i mewn i'r DU, a chyn belled â bod y meini prawf canlynol yn cael eu bodloni:

- Mae'r artist yn Wladolyn Di-Fisa;
- Mae cyfanswm yr holl gyfnodau o ymrwymiadau, ynghyd ag unrhyw fwlch rhwng yr ymrwymiadau, yn 3 mis neu lai;
- Mae'r artist, yn aml gyda chydweithrediad y sawl sy'n ei gyflwyno yn y DU, mewn cyswllt â sefydliad yn y DU sydd wedi'i gofrestru â Thrwydded Noddwr yn y DU ac a fydd yn noddi'r fisa;
- Bydd y sefydliad noddi yn y DU yn rhoi Tystysgrif Nawdd i'r artist unigol, a hwnnw'n dangos beth fydd yr artist yn ei wneud ac unrhyw drefniadau talu. Bydd y Dystysgrif yn egluro sut mae'r artist yn gymwys ar gyfer fisa yn unol â'r meini prawf penodol a restrir ar wefan Llywodraeth y DU. Bydd y Dystysgrif Nawdd yn dod i rym wrth y ffin;
- Uchafswm cyfnod yr arhosiad yw 3 mis neu lai o'r dyddiad y caiff eich fisa ei roi i chi.

Bydd angen Awdurdodiad Teithio Electronig (ETA) ar artistiaid – gweler yr adran ar ymwelwyr cyffredinol am fanylion ar ETA.

Ar ôl i'r artist gyrraedd y DU, rhaid iddo wneud y gwaith sydd wedi'i enwi yn y Dystysgrif Nawdd.

Mae rhagor o wybodaeth fan hyn am y llwybr Gwaith Dros Dro – Consesiwn Fisa Gweithiwr Creadigol:
Gwaith Dros Dro – Consesiwn Fisa Gweithiwr Creadigol

Mae rhestr fan hyn o'r sefydliadau sydd â Thrwydded Noddwr gan y Swyddfa Gartref:
Rhestr o Noddwyr Trwyddedig

Mae'r meini prawf penodol ar gyfer Tystysgrifau Nawdd i'w gweld fan hyn:
Codau Ymarfer Gweithwyr Creadigol

Ni ddylid ystyried y canllaw hwn yn gyngor cyfreithiol. Os bydd angen cyngor cyfreithiol arnoch chi, dylech gysylltu â chyfreithiwr cymwys. Mae ein hymwadiad cyfreithiol llawn ar gael i'w ddarllen ar ein gwefan fan hyn.

# Gwaith Dros Dro – Consesiwn Fisa Gweithiwr Creadigol: Gwybodaeth

## Ar gyfer Gwladolion Di-Fisa a theithiau mwy fforddiadwy am gyfnod byr yn y DU

'**Ymrwymiadau olynol**' yw lle bydd sawl noddwr yn cefnogi artist yn ystod nifer o wahanol ymrwymiadau yn y DU. Os byddwch chi'n cael eich noddi i gyflawni ymrwymiadau olynol, rhaid i bob noddwr gael Trwydded Noddwr ddilys, a rhaid i bob un roi ei Dystysgrif Nawdd ei hun i chi.

'**Ymrwymiadau lluosog**' yw lle bydd yr un noddwr yn cefnogi'r artist drwy gydol y cyfnod, ond bod nifer o ymrwymiadau ar wahân yn ystod y cyfnod noddi.

Yn achos 'ymrwymiadau olynol' ac 'ymrwymiadau lluosog' **ill dau**, ni ddylai bod mwy na 14 diwrnod rhwng bob ymrwymiad yn y DU. Fodd bynnag, os byddwch chi'n gadael y DU ac yn dychwelyd, ni fydd eich amser i ffwrdd yn cyfrif tuag at yr 14 diwrnod. Ni fydd y dyddiadau pan fyddwch chi'n gadael ac yn dychwelyd i'r DU yn cyfrif at yr 14 diwrnod chwaith.

- Mae hawl gan artistiaid hefyd i wneud hyd at 20 awr o waith atodol bob wythnos os yw'r swydd naill ai yn yr un sector ac ar yr un lefel â'ch prif swydd, neu os yw'r swydd ar restr cyflogau mewnfudo ar gyfer gweithwyr crefftus.

Mae'r rhestr cyflogau mewnfudo ar gyfer gweithwyr crefftus i'w gweld fan hyn:
Rhestr cyflogau mewnfudo ar gyfer gweithwyr crefftus

## Dod i mewn i'r DU drwy Iwerddon gyda Chonsesiwn Fisa Gweithiwr Creadigol

Os byddwch chi'n dod i'r DU drwy Iwerddon o dan y Consesiwn Fisa Gweithiwr Creadigol, rhaid i chi wneud cais am ganiatâd o bell o leiaf 72 awr cyn i chi gyrraedd y DU.

Mae rhagor o wybodaeth am yr Ardal Deithio Gyffredin fan hyn:
Canllawiau am yr Ardal Deithio Gyffredin

Mae gan wefan Llywodraeth y DU wybodaeth am deithio i'r DU drwy Iwerddon (canllawiau am yr Ardal Deithio Gyffredin) ac am sut i wneud cais am ganiatâd o bell ar gyfer Consesiwn Fisa Gweithiwr Creadigol.

Mae gwybodaeth am sut i wneud cais am ganiatâd o bell fan hyn:
Consesiwn Fisa Gweithiwr Creadigol: Ffurflen Caniatâd Mewnfudo

Ni ddylid ystyried y canllaw hwn yn gyngor cyfreithiol. Os bydd angen cyngor cyfreithiol arnoch chi, dylech gysylltu â chyfreithiwr cymwys.
Mae ein hymwadiad cyfreithiol llawn ar gael i'w ddarllen ar ein gwefan fan hyn.

# Gweithgarwch Am Gyfnod Hwy Am Dâl yn y DU

## Rwy'n bwriadu bod yn y DU i wneud gwaith am gyfnod hwy

Efallai y bydd y llwybrau canlynol yn addas i artistiaid sy'n bwriadu bod yn y DU i wneud gweithgarwch am gyfnod hwy, a hynny am dâl. Ar waelod tudalen pob llwybr mynediad, mae botwm i ddychwelyd i'r dudalen hon, fel y gallwch chi symud yn ôl ac ymlaen yn rhwydd rhwng y llwybrau mynediad. Rydyn ni'n argymell eich bod chi'n ystyried yr holl wybodaeth sydd ar gael am y llwybrau canlynol. Fodd bynnag, mae croeso i chi neidio i'r llwybrau unigol drwy ddewis y botymau perthnasol isod.

### Fisa Gweithiwr Creadigol

Gall artistiaid aros yn y DU i gyflawni ymrwymiadau am dâl am hyd at **12 mis**, gyda phosibilrwydd o ymestyn y cyfnod i hyd at **24 mis**.

Gwybodaeth 28
Cwestiynau cyffredin 31

### Fisa Gweithiwr Symudedd Ieuenctid

Bydd artistiaid sy'n bodloni'r gofynion o ran oedran a chenedligrwydd yn gallu aros yn y DU i gyflawni ymrwymiadau am dâl am hyd at **2 neu 3 blynedd yn dibynnu ar eu cenedligrwydd**.

Gwybodaeth 32

### Trwydded Gweithiwr Trawsffiniol

Bydd artistiaid sy'n bodloni'r gofynion o ran cenedligrwydd ac amodau eraill yn gallu aros yn y DU i gyflawni ymrwymiadau am dâl am **hyd at 5 mlynedd** (**neu 2 flynedd** os yw'r artist yn gwneud cais am statws 'a gedwir'). Mae'r drwydded hon yn rhad ac am ddim.

Gwybodaeth 34

Mae rhagor o wybodaeth am 'statws a gedwir' fan hyn: Trwydded Gweithiwr Trawsffiniol: Pwy sy'n gallu gwneud cais

# Gwaith Dros Dro – Fisa Gweithiwr Creadigol: Gwybodaeth

## Ar gyfer gweithgarwch am dâl sy'n para cyfnod hwy yn y DU

Dyma'r llwybr fisa delfrydol ar gyfer dawnswyr, cerddorion, actorion, gweithwyr yn y byd ffilm a theledu, modelau ffasiwn, a pherfformwyr eraill sydd wedi cael contract i gyflawni ymrwymiadau yn y DU a fydd yn para mwy na mis. Mae'r llwybr Gwaith Dros Dro – Fisa Gweithiwr Creadigol yn caniatáu i'r artist fyw a gweithio yn y DU am hyd at 12 mis i ddechrau (gydag estyniad o hyd at 24 mis yn bosibl), yn ogystal â gadael y DU a dod yn ôl yn ystod y cyfnod noddi.

Er mwyn cael fisa drwy'r llwybr Gwaith Dros Dro – Fisa Gweithiwr Creadigol, rhaid cymryd tri cham:

1. Rhaid bod gan yr artist, yn aml gyda chydweithrediad y sawl sy'n ei gyflwyno yn y DU, gyswllt â sefydliad yn y DU sydd â Thrwydded Noddwr y Swyddfa Gartref ac a fydd yn noddi'r fisa.

2. Bydd y sefydliad noddi yn y DU yn rhoi Tystysgrif Nawdd i'r artist unigol, sy'n dangos yr hyn y bydd yr artist yn ei wneud ac unrhyw drefniadau talu. Mae'r Dystysgrif Nawdd yn egluro sut mae'r artist yn gymwys ar gyfer fisa yn unol â'r meini prawf penodol sydd wedi'u rhestru ar wefan Llywodraeth y DU.

3. Bydd yr artist yn gwneud cais am fisa, gan gyfeirio at yr wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y Dystysgrif Nawdd. Rhaid cyflwyno'r cais yng ngwlad enedigol yr artist neu'r wlad lle mae'n byw'n gyfreithlon. Fel rhan o'r cais, rhaid i'r artist brofi fod ganddo gyllid o £1,270 fan lleiaf am gyfnod o 28 diwrnod, oni bai bod y noddwr sydd ar y rhestr A wedi cadarnhau y bydd yn cynnal yr artist a bod hyn wedi'i gadarnhau ar y Dystysgrif Nawdd.

Mae rhagor o wybodaeth fan hyn am y llwybr Gwaith Dros Dro – Fisa Gweithiwr Creadigol fan hyn: Gwaith Dros Dro – Fisa Gweithiwr Creadigol

Mae rhestr fan hyn o'r sefydliadau sydd â Thrwydded Noddwr gan y Swyddfa Gartref: Rhestr o'r noddwyr trwyddedig

Mae'r meini prawf penodol ar gyfer Tystysgrifau Nawdd i'w gweld fan hyn: Codau ymarfer Gweithwyr Creadigol

Ni ddylid ystyried y canllaw hwn yn gyngor cyfreithiol. Os bydd angen cyngor cyfreithiol arnoch chi, dylech gysylltu â chyfreithiwr cymwys. Mae ein hymwadiad cyfreithiol llawn ar gael i'w ddarllen ar ein gwefan fan hyn.

# Gwaith Dros Dro – Fisa Gweithiwr Creadigol: Gwybodaeth

## Ar gyfer gweithgarwch am dâl sy'n para cyfnod hwy yn y DU

Ar ôl i'r artist gyrraedd y DU, rhaid iddo wneud y gwaith sydd wedi'i enwi yn y Dystysgrif Nawdd.

Ar ôl i'r cais gael ei gyflwyno, bydd Llywodraeth y DU yn gwneud penderfyniad ymhen tair wythnos gan amlaf, ond gall hyn gymryd mwy o amser. Efallai y gallwch chi roi eich cais fisa drwy'r llwybr carlam am ffi ychwanegol – gallwch ofyn i'ch canolfan fisa a yw hyn yn opsiwn i chi. Y ffi i wneud cais yw £319 a bydd y Gordal Iechyd Mewnfudo yn berthnasol os bydd y fisa rydych chi'n gwneud cais amdani yn para cyfnod hwy na 6 mis. Gallai fod angen talu ffioedd ychwanegol yn y ganolfan fisa am wasanaethau sy'n cynnig cyfleustra ac apwyntiadau hyblyg i ymgeiswyr.

Gall aelodau teulu'r artist wneud cais am fisa dibynyddion ar yr un pryd â'r artist, neu ar ôl i fisa'r artist gael ei rhoi. Mae'r broses ymgeisio'n debyg, a'r ffioedd fwy neu lai'r un peth â'r rhai y bydd yr artist yn eu talu.

Mae rhagor o wybodaeth fan hyn am faint o amser mae'n ei gymryd i wneud penderfyniadau ynghylch ceisiadau:
[Amseroedd aros am benderfyniadau fisa]

Mae rhagor o wybodaeth am y Gordal Iechyd Mewnfudo fan hyn:
[Talu am eich gofal iechyd yn y DU fel rhan o'ch cais mewnfudo]

'**Ymrwymiadau olynol**' yw lle bydd sawl noddwr yn cefnogi artist yn ystod nifer o wahanol ymrwymiadau yn y DU. Os byddwch chi'n cael eich noddi i gyflawni ymrwymiadau olynol, rhaid i bob noddwr gael Trwydded Noddwr ddilys gan y Swyddfa Gartref, a rhaid i bob un roi ei Dystysgrif Nawdd ei hun i chi.

'**Ymrwymiadau lluosog**' yw lle bydd yr un noddwr yn cefnogi'r artist drwy gydol y cyfnod, ond bod nifer o ymrwymiadau ar wahân yn ystod y cyfnod noddi.

Yn achos 'ymrwymiadau olynol' ac 'ymrwymiadau lluosog' **ill dau**, ni ddylai bod mwy na 14 diwrnod rhwng bob ymrwymiad yn y DU. Fodd bynnag, os byddwch chi'n gadael y DU ac yn dychwelyd, ni fydd eich amser i ffwrdd yn cyfrif tuag at yr 14 diwrnod. Ni fydd y dyddiadau pan fyddwch chi'n gadael ac yn dychwelyd i'r DU yn cyfrif at yr 14 diwrnod chwaith.

Mae hawl gan artistiaid hefyd i wneud hyd at 20 awr o waith atodol bob wythnos os yw'r swydd naill ai ar y rhestr cyflogau mewnfudo neu yn yr un sector ac ar yr un lefel â'ch prif swydd. Gall y gwaith hwn fod gyda sefydliad yn y DU sydd heb drwydded nawdd, ac ni ddylai ymyrryd â'r prif ymrwymiad.

Mae rhestr fan hyn o'r galwedigaethau lle mae prinder gweithwyr crefftus:
[Fisa gweithwyr crefftus: rhestr o gyflogau mewnfudo]

# Gwaith Dros Dro – Fisa Gweithiwr Creadigol: Cwestiynau Cyffredin

Ar gyfer gweithgarwch am dâl sy'n para cyfnod hwy yn y DU

## Beth alla' i ei wneud gyda Fisa Gweithiwr Creadigol?

Drwy'r llwybr Gwaith Dros Dro – Fisa Gweithiwr Creadigol, fe allwch chi:

a. Aros am hyd at 12 mis (gydag estyniad yn bosibl);
b. Gweithio i'ch noddwr yn y swydd a ddisgrifir yn y Dystysgrif Nawdd;
c. Gwneud ail swydd sydd yn yr un sector ac ar yr un lefel â'ch prif swydd (mae eithriadau) neu swydd sydd ar y rhestr o gyflogau mewnfudo i weithwyr crefftus am hyd at 20 awr yr wythnos
d. Teithio dramor a dychwelyd i'r DU;
e. Dod ag aelodau'ch teulu gyda chi.

## Pa gamau y mae'n rhaid i artistiaid eu cymryd i wneud cais drwy'r llwybr Gwaith Dros Dro – Fisa Gweithiwr Creadigol?

Er mwyn gwneud cais drwy'r llwybr Gwaith Dros Dro – Fisa Gweithiwr Creadigol, rhaid i chi gael Tystysgrif Nawdd, cyn gwneud cais am y fisa ar-lein (oni bai eich bod yn dod o Ogledd Korea).

### Cael tystysgrif nawdd

Er mwyn cael fisa drwy'r llwybr Gwaith Dros Dro – Fisa Gweithiwr Creadigol, rhaid i artistiaid gael Tystysgrif Nawdd gan sefydliad sy'n Noddwr Trwyddedig ar gyfer gweithwyr creadigol.

Rhaid i'r Dystysgrif Nawdd gadarnhau bod yr artist yn gymwys o dan un o'r dosbarthiadau a restrir yn y dogfennau hyn:

- Rheolau Mewnfudo Atodiad Cod Ymarfer Gweithwyr Creadigol Rheolau Mewnfudo Atodiad Galwedigaethau Crefftus a/neu
- Atodiad Rheolau Mewnfudo Rhestr Gyflog Mewnfudo
- Mae'r rhestrau hyn yn cynnwys categorïau ar gyfer cerddorion ac artistiaid eraill

Mae'r rhestri hyn yn cynnwys categorïau i gerddorion ac artistiaid eraill.

Mae rhestr fan hyn o'r sefydliadau sydd â Thrwydded Noddwr gan y Swyddfa Gartref: Rhestr o noddwyr trwyddedig

Mae rhestr fan hyn o'r galwedigaethau lle mae prinder gweithwyr crefftus Rhestr o gyflogau mewnfudo

# Gwaith Dros Dro – Fisa Gweithiwr Creadigol: Cwestiynau Cyffredin

## Ar gyfer gweithgarwch am dâl sy'n para cyfnod hwy yn y DU

Er mwyn bod yn gymwys i gael fisa drwy'r llwybr Gwaith Dros Dro – Fisa Gweithiwr Creadigol, rhaid i artistiaid ddangos:

- Y byddan nhw'n gwneud cyfraniad unigryw at farchnad lafur y DU, er enghraifft drwy fod ag enw rhyngwladol neu drwy sicrhau bod prosiect yn parhau;
- Eu bod yn bodloni gofynion codau ymarfer perthnasol;
- Y byddan nhw'n cael yr isafswm cyflog a osodir gan Equity, PACT neu BECTU (ac eithrio modelau, cerddorion neu weithwyr syrcas);
- Eu bod â £1,270 mewn cyfrif banc am 28 diwrnod cyn gwneud cais (oni bai bod y cyflogwr sy'n eich noddi yn noddwr sydd wedi'i gymeradwyo'n llawn ar y rhestr A ac yn cadarnhau y bydd yn eich cynnal).

## Gwneud cais am Fisa Gweithiwr Creadigol

Y cynharaf y gallwch chi wneud cais yw 3 mis cyn dyddiad y gwaith, a fydd yn ymddangos ar y Dystysgrif Nawdd. Dylai gymryd tua 3 wythnos i brosesu'r fisa ar ôl i'ch cais ddod i law.

Ni ddylid ystyried y canllaw hwn yn gyngor cyfreithiol. Os bydd angen cyngor cyfreithiol arnoch chi, dylech gysylltu â chyfreithiwr cymwys.
Mae ein hymwadiad cyfreithiol llawn ar gael i'w ddarllen ar ein gwefan fan hyn.

# Fisa Cynllun Symudedd Ieuenctid: Gwybodaeth

## Ar gyfer gweithgarwch am dâl sy'n para cyfnod hwy yn y DU

Mae'r Fisa Cynllun Symudedd Ieuenctid yn caniatáu i'r artist fyw a gweithio yn y DU am hyd at 24 mis, yn ogystal â gadael y DU a dod yn ôl yn ystod y cyfnod hwnnw o 24 mis. Os ydych chi'n dod o Awstralia, Canada neu Seland Newydd, gallwch chi ymestyn eich fisa am hyd at flwyddyn tra byddwch chi yn y DU.

This Gallai'r llwybr fisa hwn fod yn ddelfrydol i artistiaid sy'n bodloni'r meini prawf canlynol:

Mae rhagor o wybodaeth am y Fisa Cynllun Symudedd Ieuenctid fan hyn: Fisa Cynllun Symudedd Ieuenctid

- Artistiaid sydd â chynilon o £2,530 neu fwy.
- Mae modd gwneud cais am y fisa os ydych chi rhwng 18 a 35 oed ac yn dod o:
  - Awstralia
  - Canada
  - Seland Newydd
  - De Korea
- Mae modd gwneud cais am y fisa os ydych chi rhwng 18 a 30 oed ac yn dod o:
  - Andorra
  - Gwlad yr Iâ
  - India
  - Japan
  - Monaco
  - San Marino
  - Uruguay
  - Hong Kong, os oes gennych chi basport SAR
  - Taiwan
- Mae modd gwneud cais hefyd os ydych chi rhwng 18 a 30 oed ac os ydych chi:
  - Yn ddinesydd Prydeinig tramor
  - Yn ddinesydd tiriogaethau tramor Prydeinig
  - Yn wladolyn Prydeinig (dramor)

Rhaid i chi gael eich dewis ym malot y Cynllun Symudedd Ieuenctid cyn y gallwch wneud cais am eich fisa os ydych chi'n dod o Hong Kong, Taiwan, neu India. Mae cynllun ar wahân ar gyfer gwladolion India, sef Cynllun Gweithwyr Proffesiynol Ifanc India.

Mae rhagor o wybodaeth am y system falot fan hyn: System Falot y Fisa Cynllun Symudedd Ieuenctid

Fisa Cynllun Gweithwyr Proffesiynol Ifanc India: system falot

# Fisa Cynllun Symudedd Ieuenctid: Gwybodaeth

## Ar gyfer gweithgarwch am dâl sy'n para cyfnod hwy yn y DU

### Y broses ymgeisio

Ar ôl i'r cais gael ei gyflwyno, bydd Llywodraeth y DU yn gwneud penderfyniad ymhen tair wythnos gan amlaf, ond gall hyn gymryd mwy o amser.

Efallai y gallwch chi roi eich cais fisa drwy'r llwybr carlam am ffi ychwanegol – gallwch ofyn i'ch canolfan fisa a yw hyn yn opsiwn i chi. Y ffi i wneud cais yw £319, a bydd y Gordal Iechyd Mewnfudo yn berthnasol. Gallai fod angen talu ffioedd ychwanegol yn y ganolfan fisa am wasanaethau sy'n cynnig cyfleustra ac apwyntiadau hyblyg i ymgeiswyr.

Ni all aelodau teulu'r artist wneud cais am fisa dibynyddion ar yr un pryd â'r artist, nac ar ôl i fisa'r artist gael ei rhoi. Chewch chi ddim gwneud cais am y fisa hon os oes gennych chi unrhyw blant o dan 18 oed sydd naill ai'n byw gyda chi neu sy'n ddibynnol yn ariannol arnoch chi.

Mae rhagor o wybodaeth fan hyn am faint o amser mae'n ei gymryd i wneud penderfyniadau ynghylch ceisiadau:
[Amseroedd aros am benderfyniad fisa: Ceisiadau o'r tu allan i'r DU]

Mae rhagor o wybodaeth am y Gordal Iechyd Mewnfudo fan hyn:
[Talu am ofal iechyd yn y DU fel rhan o'ch cais mewnfudo]

Ni ddylid ystyried y canllaw hwn yn gyngor cyfreithiol. Os bydd angen cyngor cyfreithiol arnoch chi, dylech gysylltu â chyfreithiwr cymwys.
Mae ein hymwadiad cyfreithiol llawn ar gael i'w ddarllen ar ein gwefan fan hyn.

# Trwydded Gweithiwr Trawsffiniol: Gwybodaeth

## Ar gyfer gweithgarwch am dâl sy'n para cyfnod hwy yn y DU

Mae'r Drwydded Gweithiwr Trawsffiniol yn caniatáu i'r artist weithio yn y DU am hyd at 5 mlynedd (neu 2 flynedd os yw'r artist wedi gwneud cais am statws 'gweithiwr a gedwir'). Nid oes angen talu ffi i wneud cais am y drwydded, ac nid oes angen talu'r Gordal Iechyd Mewnfudo. Efallai y bydd rhaid i'r artist gyflwyno'i wybodaeth fiometreg (ffotograff neu olion bysedd).

Gallai'r llwybr fisa hwn fod yn ddelfrydol i artistiaid sy'n bodloni'r meini prawf canlynol:

- Artistiaid sydd a chenedligrwydd gwlad yn yr Undeb Ewropeaidd neu'r Swistir, Norwy, Gwlad yr Iâ neu Liechtenstein;
- Artistiaid sy'n preswylio'n bennaf y tu allan i'r DU;
- Artistiaid sydd wedi gweithio yn y DU cyn 31 Rhagfyr 2020;
- Artistiaid sydd wedi gwneud gwaith dilys ac effeithiol yn y DU yn y 12 mis cyn gwneud cais am y drwydded (mae rhai eithriadau)

Ni fydd y Drwydded Gweithiwr Trawsffiniol yn berthnasol i aelodau teulu'r artist.

Mae rhagor o wybodaeth am y Drwydded Gweithiwr Trawsffiniol fan hyn: Trwydded Gweithiwr Trawsffiniol

Mae rhagor o wybodaeth am statws 'gweithiwr a gedwir' fan hyn: Trwydded Gweithiwr Trawsffiniol: Pwy sy'n gallu gwneud cais

Ni ddylid ystyried y canllaw hwn yn gyngor cyfreithiol. Os bydd angen cyngor cyfreithiol arnoch chi, dylech gysylltu â chyfreithiwr cymwys. Mae ein hymwadiad cyfreithiol llawn ar gael i'w ddarllen ar ein gwefan fan hyn.

# Byw yn y DU

Mae angen i chi deithio i'r DU i fyw a gweithio yno.

## Gwybodaeth

Gan amlaf, y llwybr Gwyliau Didrwydded, y llwybr Ymrwymiad Taledig a Ganiateir, a'r llwybr Fisa Gweithiwr Creadigol fydd y llwybrau mwyaf addas ar gyfer y rhan fwyaf o artistiaid o dramor sy'n dymuno teithio neu weithio yn y DU heb fyw yn y DU am gyfnod estynedig. Fodd bynnag, mae opsiynau eraill ar gael y gallai fod yn werth eu hystyried, yn enwedig os yw'r artist yn arbennig o fedrus neu'n bwriadu ymrwymo i waith yn y DU am gyfnod hwy.

## Fisa Talent Byd-Eang

Dyma'r llwybr ar gyfer arweinwyr sydd wedi ennill eu plwyf ym maes y celfyddydau, dawns, llenyddiaeth, cerddoriaeth, theatr neu'r celfyddydau gweledol, gan gynnwys ffilm a theledu (sy'n cynnwys animeiddio, ôl-gynhyrchu ac effeithiau gweledol). Mae'n bosibl y gallai'r rheini sy'n dangos addewid eithriadol, ar gam cynnar yn eu gyrfaoedd, gael eu cymeradwyo yn y disgyblaethau uchod ar wahân i'r sector ffilm a theledu.

Mae'n broses 2 gam:

1. Rhaid i ymgeiswyr gasglu dogfennau cyn gwneud cais am gymeradwyaeth ar wefan Llywodraeth y DU.
2. Bydd y corff cymeradwyo (Arts Council England) yn asesu ceisiadau am gymeradwyaeth. Bydd Arts Council England yn dirprwyo'r broses asesu yn y sector ffilm a theledu i PACT. Ar ôl cael cymeradwyaeth, rhaid i'r artist gyflwyno cais am fisa sy'n cyfeirio at y gymeradwyaeth. Os caiff ei rhoi, bydd y fisa'n gymwys am gyfnod o hyd at 5 mlynedd.

Mae gan deulu'r artist hawl i wneud cais am fisâu dibynyddion am yr un cyfnod. Cyfanswm y ffi ar gyfer y fisa a'r gymeradwyaeth yw £766 a bydd y Gordal Iechyd Mewnfudo yn berthnasol i bob cais (gan gynnwys aelodau'r teulu). Gall fod angen talu costau eraill am wasanaethau sy'n cael eu cynnig gan y ganolfan fisa.

Mae modd preswylio'n sefydlog drwy'r llwybr Talent Byd-eang ar ôl 3 blynedd (talent eithriadol) neu 5 mlynedd (addewid eithriadol).

Mae rhagor o wybodaeth am y Fisa Talent Byd-eang fan hyn:
Gweithio yn y DU fel arweinydd yn y byd celfyddydau a diwylliant

Mae rhestr o'r dogfennau angenrheidiol fan hyn:
Fisa Talent Byd-eang: Y dogfennau sy'n rhaid eu darparu

Mae rhagor o wybodaeth am gam cyntaf y broses gymeradwyo ac am sut i wneud cais fan hyn:
Cymeradwyo talent byd-eang – Cam 1

Darllenwch ganllawiau Arts Council England, sef y corff cymeradwyo, fan hyn:
Y Fisa Talent Byd-eang

Mae rhagor o wybodaeth am y Gordal Iechyd Mewnfudo fan hyn:
Talu am eich gofal iechyd yn y DU fel rhan o'ch cais mewnfudo

# Byw yn y DU

## Mae angen i chi deithio i'r DU i fyw a gweithio yno

### Fisa Gweithiwr Crefftus

Dyma'r llwybr ar gyfer unigolion sy'n dymuno cael eu cyflogi gan gyflogwr yn y DU sydd â Thrwydded Noddwr. Rhaid i'r swydd a gynigir gan gyflogwr-noddwr yn y DU fod yn un grefftus, a rhaid i'r unigolyn gael isafswm cyflog. Rhaid i'r noddwr yn y DU roi Tystysgrif Nawdd i'r unigolyn, sy'n rhoi gwybodaeth am y swydd grefftus a'r cyflog a gaiff ei gynnig.

Fel rhan o'r cais am fisa, rhaid i'r unigolyn wneud y canlynol:

- cyfeirio at y Dystysgrif Nawdd;
- dangos bod ganddo £1,270 neu fwy o arian personol am gyfnod o 28 diwrnod, oni bai bod y noddwr yn cadarnhau y bydd yn cynnal yr artist;
- bodloni'r gofyniad o ran Saesneg.

Os caiff ei rhoi, bydd y fisa'n gymwys am gyfnod o hyd at 5 mlynedd. Mae modd preswylio'n sefydlog yn y DU ar ôl byw yno am 5 mlynedd. Mae modd i aelodau'r teulu wneud cais am fisâu dibynyddion am yr un cyfnod. Mae'r ffioedd ar gyfer y fisa'n amrywio'n sylweddol, gan ddibynnu ar hyd y fisa a natur y gwaith crefftus. Mae'n rhaid talu'r Gordal Iechyd Mewnfudo.

### Categorïau eraill

O dan reolau mewnfudo'r DU, ceir hefyd nifer o gategorïau sy'n ystyried amgylchiadau unigol rhywun a/neu amgylchiadau'r teulu.

Mae rhagor o wybodaeth am y Fisa Gweithiwr Crefftus fan hyn:
Fisa Gweithiwr Crefftus

Mae rhestr fan hyn o'r sefydliadau sydd â Thrwydded Noddwr gan y Swyddfa Gartref:
Rhestr o noddwyr trwyddedig Sponsors

Mae'r rhestr o alwedigaethau cymwys a'r lefelau cyflog cyfatebol i'w gweld fan hyn:
Galwedigaethau crefftus

Mae rhagor o wybodaeth fan hyn am y ffioedd i wneud cais am Fisa Gweithiwr Crefftus:
Fisa Gweithiwr Crefftus: Faint mae'n gostio

Mae rhagor o wybodaeth am y Gordal Iechyd Mewnfudo fan hyn:
Talu am ofal iechyd yn y DU fel rhan o'ch cais mewnfudo

Mae rhagor o wybodaeth gyffredinol fan hyn am fisâu a llwybrau mynediad eraill:
Fisâu a mewnfudo yn y DU

Ni ddylid ystyried y canllaw hwn yn gyngor cyfreithiol. Os bydd angen cyngor cyfreithiol arnoch chi, dylech gysylltu â chyfreithiwr cymwys. Mae ein hymwadiad cyfreithiol llawn ar gael i'w ddarllen ar ein gwefan fan hyn.

# Diffiniadau ac Acronymau

→ **Cymeradwyaeth** (Endorsement)

I artistiaid sy'n gwneud cais am y Fisa Talent Byd-eang
Cymeradwyaeth yw hon ar ffurf e-bost gan 'gorff cymwys dynodedig' sy'n ymwneud â sector penodol (gan amlaf, Arts Council England fydd hwn). Bydd y corff yn adolygu tystiolaeth yr artist ac yn cadarnhau bod gan yr artist 'dalent eithriadol' neu 'addewid eithriadol' cyn ei gymeradwyo.

→ **Tystysgrif Nawdd** (Certificate of Sponsorship)

I artistiaid sy'n gwneud cais drwy unrhyw lwybr gwaith a noddir.
Dyma'r dystysgrif a roddir gan y cyflogwr yn y DU sy'n cynnwys gwybodaeth am y gwaith a gynigir i'r artist.

→ **Yr Ardal Deithio Gyffredin** (Common Travel Area – CTA)

Cytundeb rhwng y DU, Iwerddon ac ynysoedd Jersey, Guernsey ac Ynys Manaw yw'r Ardal Deithio Gyffredin. O dan yr Ardal Deithio Gyffredin, gall dinasyddion Prydain ac Iwerddon symud yn rhydd a byw yn y naill wlad neu'r llall. Bydd ganddyn nhw hefyd hawliau a breintiau cysylltiedig, gan gynnwys yr hawl i weithio, astudio a phleidleisio mewn rhai etholiadau, yn ogystal â chael budd-daliadau cymdeithasol a gwasanaethau iechyd.

Mae rhagor o wybodaeth am yr Ardal Deithio Gyffredin fan hyn: Canllawiau am yr Ardal Deithio Gyffredin: hawliau dinasyddion Prydain ac Iwerddon

→ **Consesiwn Gweithiwr Creadigol** (Creative Worker Concession)

Llwybr lle bydd artistiaid sy'n Wladolion Di-Fisa'n gallu dod i mewn i'r DU heb orfod gwneud cais am fisa o dramor. Rhaid iddyn nhw fodloni gofynion eraill Fisa Gweithiwr Creadigol i fod yn gymwys, gan gynnwys y gofyniad i gael Tystysgrif Nawdd, ac ni ddylai cyfnod y nawdd yn y DU fod yn fwy na 3 mis.

Ni ddylid ystyried y canllaw hwn yn gyngor cyfreithiol. Os bydd angen cyngor cyfreithiol arnoch chi, dylech gysylltu â chyfreithiwr cymwys.
Mae ein hymwadiad cyfreithiol llawn ar gael i'w ddarllen ar ein gwefan fan hyn.

# Diffiniadau ac Acronymau

## → **Fisa Gweithiwr Creadigol** (Creative Worker Visa)

Fisa gwaith y gellir ei roi i artist sydd wedi cael cynnig gwaith yn y DU fel gweithiwr creadigol, megis actor, dawnsiwr, cerddor neu aelod o griw ffilmio, ac sy'n bodloni meini prawf penodol eraill.

## → **Yr Undeb Ewropeaidd** (The European Union – EU)

Undeb economaidd a gwleidyddol o 27 o wledydd yw'r Undeb Ewropeaidd. Mae ganddo farchnad fewnol (neu sengl) sy'n caniatáu i nwyddau, cyfalaf, gwasanaethau a phobl symud yn rhydd rhwng yr aelod-wladwriaethau.

Mae rhestr o wledydd yr Undeb Ewropeaidd a'r Ardal Economaidd Ewropeaidd fan hyn:
Gwledydd yr Undeb Ewropeaidd a'r Ardal Economaidd Ewropeaidd

## → **Yr Ardal Economaidd Ewropeaidd** (The European Economic Area – EEA)

Mae'r Ardal Economaidd Ewropeaidd yn cynnwys gwledydd yr Undeb Ewropeaidd yn ogystal â Gwlad yr Iâ, Liechtenstein, a Norwy. Mae'r gwledydd hyn yn rhan o farchnad sengl yr Undeb Ewropeaidd.

Nid yw Swistir yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd nac o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd, ond mae'n rhan o'r farchnad sengl. Mae hyn yn golygu bod gan wladolion y Swistir yr un hawliau i fyw a gweithio yn y DU â gwladolion eraill yr Ardal Economaidd Ewropeaidd.

## → **ETA: Awdurdodiad Teithio Electronig** (ETA: Awdurdodiad Teithio Electronig)

Cyflwynwyd Awdurdodiad Teithio Electronig i ymwelwyr i'r DU o ar draws y bydd sydd ar hyn o bryd ddim angen fisa ar gyfer arosiadau byr, neu sydd ddim eisoes â statws mewnfudo i'r DU.

Mae ETA yn ganiatâd digidol i deithio - nid yw'n fisa ac nid yw'n caniatáu mynediad i'r DU - mae'n awdurdodi person i deithio i'r DU.

Mae rhagor o wybodaeth fan hyn am y cynllun gan gynnwys sut i wneud cais:
Canllawiau: Ymgeisiwch am Awdurdodiad Teithio Electronig (ETA)

Ni ddylid ystyried y canllaw hwn yn gyngor cyfreithiol. Os bydd angen cyngor cyfreithiol arnoch chi, dylech gysylltu â chyfreithiwr cymwys.
Mae ein hymwadiad cyfreithiol llawn ar gael i'w ddarllen ar ein gwefan fan hyn.

# Diffiniadau ac Acronymau

→ **Gweithiwr Trawsffiniol** (Frontier Worker)

Dinesydd o'r Undeb Ewropeaidd, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd neu'r Swistir yw gweithiwr trawsffiniol sy'n cael ei gyflogi yn y DU, neu sy'n hunangyflogedig yn y DU, ond sy'n byw yn rhywle arall.

→ **Fisa Talent Byd-Eang** (Global Talent Visa)

Fisa gwaith y gellir ei rhoi i artist sy'n 'dalent eithriadol' neu sydd ag 'addewid eithriadol'.

→ **Noddwr Trwyddedig** (Licensed Sponsor)

Sefydliad sydd â Thrwydded Noddwr gan y Swyddfa Gartref, ac sy'n gallu rhoi Tystysgrif Nawdd i ddarpar weithwyr neu weithwyr presennol.

→ **Gwladolion Di-Fisa** (Non-Visa Nationals)

Gwladolion tramor sydd ddim ar y rhestr o Wladolion Fisa ac sydd ddim angen fisa i ymweld â'r DU fel Ymwelwyr Cyffredin. O 8 Ionawr 2025, bydd angen Awdurdoadiad Teithio Electronig ar y rhan fwyaf o Wladolion Di-Fisa cyn cyrraedd y DU.

Mae rhestr fan hyn o'r sefydliadau sydd â Thrwydded Noddwr gan y Swyddfa Gartref: Cofrestr o noddwyr trwyddedig

Mae rhestr fan hyn o'r cenhedloedd lle bydd pobl yn Wladolion Fisa (byddwch chi'n Wladolyn Di-Fisa os **nad ydych chi** ar y rhestr hon): Rhestr o genhedloedd Gwladolion Fisa

# Diffiniadau ac Acronymau

→ **Gwyliau Didrwydded** (Permit Free Festival)

Gwyliau sydd ar y rhestr o Wyliau Didrwydded, lle gall gwladolion tramor sy'n ymweld â'r DU berfformio a chael tâl am ymddangos yn yr ŵyl honno.

Mae rhestr o'r Gwyliau Didrwydded i'w gweld fan hyn: Rhestr o'r Gwyliau Didrwydded

→ **Ymrwymiad Taledig a Ganiateir** (Permitted Paid Engagement – PPE)

Taith neu ddigwyddiad yn y DU lle bydd artistiaid sy'n wladolion tramor yn gallu dod i'r DU i aros am hyd at 6 mis, ond bod yn rhaid gwneud y gwaith am dâl sy'n benodol i'w maes arbenigol yn y 30 diwrnod cyntaf.

Mae rhagor o wybodaeth am wneud cais i fod ar y rhestr o Wyliau Didrwydded fan hyn: Sut i wneud cais i fod ar y rhestr o Wyliau Didrwydded

→ **Fisa Gweithiwr Crefftus** (Skilled Worker Visa)

Fisa ar gyfer gwaith sy'n para cyfnod hwy y gellir ei rhoi i artist sydd wedi cael cynnig swydd grefftus yn y DU, sy'n cael ei gyflogi gan noddwr trwyddedig, ac sy'n bodloni meini prawf penodol eraill.

→ **Rheolau Mewnfudo'r DU** (UK Immigration Rules)

Y prif ddarnau o gyfraith fewnfudo'r DU sy'n llywodraethu sut y gall gwladolion tramor ymweld â'r DU a gweithio yn y DU.

Mae rhagor o wybodaeth am Reolau Mewnfudo'r DU fan hyn: Rheolau Mewnfudo

Ni ddylid ystyried y canllaw hwn yn gyngor cyfreithiol. Os bydd angen cyngor cyfreithiol arnoch chi, dylech gysylltu â chyfreithiwr cymwys.
Mae ein hymwadiad cyfreithiol llawn ar gael i'w ddarllen ar ein gwefan fan hyn.

# Diffiniadau ac Acronymau

## **Swyddfa Fisâu a Mewnfudo y DU** (UKVI)

Mae Swyddfa Fisâu a Mewnfudo y DU yn rhan o'r Swyddfa Gartref, ac mae'n gyfrifol am system fisâu'r Deyrnas Unedig.

Mae rhagor o wybodaeth fan hyn:
Swyddfa Fisâu a Mewnfudo y DU

## **Gwladolion Fisa** (Visa Nationals)

Gwladolion tramor sydd ar y rhestr o Wladolion Fisa ac sydd angen fisa i ymweld â'r DU.

Mae'r rhestr o genhedloedd Gwladolion Fisa fan hyn:
Rhestr o genhedloedd Gwladolion Fisa

## **Fisa Gweithiwr Symudedd Ieuenctid** (Youth Mobility Worker Visa)

Fisa gwaith i weithwyr rhwng 18 a 35 oed sy'n dod o nifer cyfyngedig o wledydd ac sy'n dymuno byw a gweithio yn y DU am hyd at 2-3 blynedd, yn dibynnu ar eu cenedligrwydd.

Ni ddylid ystyried y canllaw hwn yn gyngor cyfreithiol. Os bydd angen cyngor cyfreithiol arnoch chi, dylech gysylltu â chyfreithiwr cymwys.
Mae ein hymwadiad cyfreithiol llawn ar gael i'w ddarllen ar ein gwefan fan hyn.

# Gwybodfan Celf y DU

Mae Gwybodfan Celf y DU yn fenter sy'n datblygu ac yn rhannu adnoddau rhad ac am ddim i'ch arwain drwy rai o'r heriau gweinyddol o weithio ar draws ffiniau; a chefnogi artistiaid rhyngwladol sy'n dod i'r DU ac yn gadael y DU at ddibenion a gwaith creadigol.

Ni ddylid ystyried y canllaw yma yn gyngor cyfreithiol. Os oes angen cyngor cyfreithiol arnoch, dylech ymgynghori â chyfreithiwr cymwysedig.

Partneriaid Gwybodfan Celf y DU

wales arts international
celfyddydau rhyngwladol cymru

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Scottish Government
Riaghaltas na h-Alba
gov.scot

CREATIVE SCOTLAND
ALBA | CHRUTHACHAIL

arts council of Northern Ireland

ARTS COUNCIL ENGLAND

Cyfraniadau i'r canllaw hwn oddi wrth:

LATITUDE LAW

Newfields>>

tamizdat